

Cardiff Caerdydd

# Cynllun Lles Caerdydd 2018-2023

## Adroddiad Blynyddol 2021/22


CARDIFF

# Cynnwys


**Rhagair** 4

**Cyflwyniad** 5

**Amcanion Llesiant Caerdydd**
1. Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu 7
2. Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn 13
3. Cefnogi pobl allan o dlodi 18
4. Cymunedau diogel, hyderus a grymus 22
5. Prifddinas sy'n gweithio i Gymru 27
6. Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn 31
7. Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus 35

Atodiad A - Cynnydd yn erbyn Ymrwymiadau 38
Atodiad B - Cardiff in 2022


"Gyda'n gilydd gallwn wneud Caerdydd yn lle gwych i fyw ynddo ar gyfer ein trigolion i"

# Rhagair

Yn 2018, cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC) ei Gynllun Lles cyntaf, a oedd yn nodi blaenoriaethau partneriaeth ar gyfer gweithredu rhwng 2018 a 2023, gydag uchelgais cyffredinol i sicrhau y bydd Caerdydd yn lle gwell fyth i fyw a gweithio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, lle bydd yr holl ddinasyddion, y rhanbarth a'r genedl yn teimlo buddion twf.

Ers y cyfnod hwnnw, mae partneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd, a gwnaed cynnydd sylweddol. O ennill statws Dinas Cyflog Byw, gydag aelodau'r BGC yn arwain y ffordd ac yn dod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig – gan helpu i godi pobl allan o dlodi, i'r daith tuag at ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, gyda hawliau'r plentyn wrth wraidd ymdrechion i adfer ac adnewyddu'r ddinas yn dilyn y pandemig. O lansiad Cynllun 'Symud Mwy, Bwyta'n Dda' Caerdydd a'r Fro, sy'n hybu dull system gyfan o fynd i'r afael â gordewdra ac anghydraddoldeb iechyd, i fod yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) .

Er gwaethaf y pandemig, mae Asesiad Lles Lleol (2022) diweddaraf y BGC yn dangos cynnydd go iawn mewn sawl rhan o fywyd y ddinas. Mae lefelau iechyd da cyffredinol yng Nghaerdydd yn uchel, mae disgwyliad oes yn cynyddu ac mae'r ddinas yn perfformio'n uwch na chyfartaledd Cymru ar draws ystod o ddangosyddion ffordd iach o fyw.  Mae cyrhaeddiad addysgol wedi codi bob blwyddyn yng Nghaerdydd ers 2012 ac mae ysgolion Caerdydd bellach ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru. Caerdydd yw pwerdy economaidd Cymru, ac mae'n parhau i wneud cyfraniad allweddol at greu swyddi a chyfoeth i bobl y ddinas a'r ddinas-ranbarth ehangach, gan gyfrif am 21 %  o Werth Ychwanegol Crynswth Cymru. Yn ogystal, mae Caerdydd yn ddinas gymharol ddiogel gyda'r gyfradd troseddu isaf ond un ymhlith dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr.

Fodd bynnag, mae yna feysydd heriol parhaus o hyd. Ond er hynny, fel gyda dinasoedd eraill yn y DU, ceir anghydraddoldebau sylweddol a hirsefydlog yng Nghaerdydd. Mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau hyn, gyda byw mewn amddifadedd, incwm isel, a thai gwael yn gysylltiedig â risg uwch o fynd yn sâl gyda'r clefyd. Mae dosbarthiad canlyniadau iechyd a lles hirdymor argyfwng economaidd Covid-19 hefyd yn debygol o fod yn anghyfartal yn yr un modd, gan waethygu anghydraddoldebau. Mae hyn ar adeg pan fo'r argyfwng costau byw, chwyddiant cynyddol a chynnydd mewn prisiau ynni yn rhoi pwysau pellach ar incwm aelwydydd ledled y ddinas, gan effeithio fwyaf ar unigolion a theuluoedd agored i niwed. Mae'n bwysig felly ein bod, fel BGC, yn parhau â'n gwaith o fynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldeb o bob ffurf, gan sicrhau bod pawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd yn gallu cyfrannu at lwyddiant y ddinas ac elwa arno.

Rhaid tynnu sylw hefyd at y ffaith bod y newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn her fyd-eang ddiffiniol ein cenhedlaeth. Gydag effeithiau'r argyfwng hinsawdd eisoes i'w teimlo yng Nghaerdydd, gan gynnwys patrymau tywydd anghyson, tywydd poeth a newidiadau mewn bioamrywiaeth, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal momentwm partneriaeth i leihau ein hallyriadau carbon deuocsid a chynyddu gwydnwch ein hinsawdd, wrth i'r ddinas geisio dod yn garbon niwtral erbyn 2030.

A ninnau'n arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, gwyddom na all ymdrechion un sefydliad ar ei ben ei hun ddatrys y problemau mwyaf cymhleth sydd o'n blaenau.  Mae'r broses o adfer ac adnewyddu yn dilyn y pandemig yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i Gaerdydd fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o bob math, gwella iechyd y boblogaeth ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn adeiladu dyfodol cryfach, tecach, a gwyrddach i Gaerdydd.





**Y Cynghorydd Huw Thomas, Cadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau Caerdydd Cyhoeddus**





**Charles Janczewski Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**

# Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol

Dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf ar Gynllun Lles Caerdydd 2018-23. Felly, mae'n ystyried gwaith y mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC Caerdydd) wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf, rhwng Mehefin 2021 a Mehefin 2022, ond hefyd y cynnydd a wnaed yn ystod y Cynllun.

Mae Cynllun Lles diwygiedig ar gyfer 2023-2028 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2023. Mae hyn yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynnu bod BGCau'n cyhoeddi Cynllun diwygiedig bob pum mlynedd.

Mae Atodiad A yn rhoi diweddariad ar y cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Cynllun Llesiant. Yn ogystal, ategir yr Adroddiad Blynyddol gan yr adroddiad 'Caerdydd yn 2022', sy'n rhoi dadansoddiad tueddiadau o bob un o ddangosyddion lles y cynllun, gan ddefnyddio data o Asesiad Lles Lleol diweddaraf y BGC yn 2022 (Atodiad B).

## Beth yw BGC Caerdydd?

Mae BGC Caerdydd yn dod ag arweinwyr a phenderfynwyr gwasanaethau cyhoeddus y ddinas ynghyd, gan gynnwys y rhai yn yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r Gwasanaethau Tân, Heddlu a Phrawf. Diben y BGC yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd trwy atgyfnerthu cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas.

## Beth yw Cynllun Lles?

Mae'r Cynllun Lles yn nodi blaenoriaethau BGC Caerdydd o ran camau gweithredu ar gyfer 2018-2023. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae wir angen gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Felly, dylid ystyried y Cynllun Lles fel dogfen i ategu cynlluniau strategol pob aelod o'r BGC, gan ganolbwyntio ar sicrhau 'mantais gydweithredol' mewn rhannau o fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â phob gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys Amcanion Lles, blaenoriaethau lefel uchel y mae BGC Caerdydd wedi eu nodi fel y rhai pwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'ymrwymiadau', neu gamau ymarferol y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros 5 mlynedd y cynllun. Amcanion Lles y BGC yw:

1. Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
2. Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
3. Cefnogi pobl allan o dlodi
4. Cymunedau diogel, hyderus a grymus
5. Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
6. Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn
7. Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

## Sut caiff y Cynllun Lles ei gyflawni?

Mae BGC Caerdydd wedi cyflwyno sawl rhaglen waith er mwyn cyflawni yn y meysydd hynny lle mae angen gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau gwelliant.
Sut caiff cynnydd ei fesur?

Adroddir am y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r Cynllun Lles mewn dwy ffordd:

- Diweddariad am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r ymrwymiadau neu'r prosiectau ar y cyd a nodwyd yn y Cynllun Lles (Atodiad A).
- Diweddariad am berfformiad y ddinas yn erbyn cyfres o ddangosyddion canlyniadau a nodwyd gan BGC Caerdydd yn y Cynllun Lles, sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon ac yn adroddiad 2020 Caerdydd (Atodiad B)


1 Yn erbyn pob dangosydd canlyniadau lefel dinas, defnyddiwyd gweirchlin i gynrychioli'r duedd ddata, gan dynnu ar Asesiad Lles Lleol diweddaraf Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Caerdydd a gyhoeddwyd yn 2022. Mae'r amserlen a ddefnyddir yn amrywio ar gyfer pob dangosydd canlyniad. I gael mwy o fanylion, gweler adroddiad 'Caerdydd yn 2022' sy'n rhoi dadansoddiad o dueddiadau.



Amcan Llesiant 1

# Mae Caerdydd yn lle Gwych i Gael Eich Magu

# Cyflwyniad




Mae Caerdydd eisoes yn lle da i lawer o'i phlant a'i phobl ifanc gael eu magu ynddo, gyda system ysgol sy'n gwella'n gyflym ochr yn ochr â'r manteision y mae prifddinas yn ei chynnig fel amrywiaeth eang o gyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Trwy ymrwymiad ein dinas i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, mae Caerdydd yn arwain y ffordd wrth sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael lleisio ei farn a chyfle i'w anghenion gael eu hystyried, gyda dull sy'n seiliedig ar hawliau'r plentyn wedi ei ymgorffori yn y system ysgolion, a hefyd ar draws pob agwedd ar wasanaethau cyhoeddus a bywyd dinesig.

Fodd bynnag, mae'r anghydraddoldeb sy'n amlwg yng Nghaerdydd yn gallu cael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a phlant difreintiedig – boed hynny oherwydd anabledd, tlodi, amgylchiadau teuluol, salwch, esgeulustod neu gamdriniaeth. Mae'r pandemig wedi amlygu a gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol ymhellach – gyda'r effaith ar blant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed y ddinas yn llawer mwy. Mae mynd i'r afael â'r bwlch anghydraddoldeb yn parhau i fod o'r pwys mwyaf yn y dyfodol, sy'n gofyn am ddull cydlynol ac integredig ar draws partneriaid, gyda dulliau effeithiol o gydlynu gwasanaethau o amgylch y plentyn.

# Mesur Cynnydd[1]:

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad ystyried y data diweddaraf | Caerdydd yn 2022 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| % y plant mewn teuluoedd incwm isel (Incwm Gymharol Isel) | | 2019/20 | 20.7 % | |
| % y plant 4-5 oed sy'n iach eu pwysau (neu dan bwysau) | | 2018/19 | -<br>76.8 % | |
| Nifer y plant a gafodd MMR2 erbyn iddynt droi'n 4 oed | | 2019/20 | 87.4 % | |
| Lles meddyliol: plant a phobl ifanc ac oedolion* | | 2017/18 | 24 | dd/b |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 sy'n Cyrraedd y Lefel Ddisgwyliedig (L4+) yn y Dangosydd Pwnc Craidd** | % yn Cyrraedd. | 2017 | 89.4 % | |
| | Bwlch PYADd (gwahaniaeth pwyntiau canran) | 2017 | 13 | |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n Cyrraedd y Lefel Trothwy 2+ gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg*** | % yn Cyrraedd. | 2018/19 | 58.2 % | |
| | Bwlch PYADd (gwahaniaeth pwyntiau canran) | 2018/19 | 32 | |
| % y bobl ifanc sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant**** | Blwyddyn 11 | 2020 | 2.1 % | dd/b |
| | Blwyddyn 13 | 2020 | 2.6 % | dd/b |
| % y Plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol | | 2020 | 51.5 % | |

* Sgoriau cyfartalog Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Caeredin byr fesul plant 11-16 oed mewn ysgolion uwchradd.
** Nid yw data'n cael ei gyhoeddi mwyach
*** Nid oes modd cymharu'r ffigurau ar gyfer 2016/17 ymlaen yn uniongyrchol â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau i ddiffiniadau.
**** Nid oes modd cymharu data 2020 yn uniongyrchol â'r blynyddoedd blaenorol

# Trosolwg o waith y BGC yn 2018-22

**Cyrhaeddiad Addysgol**

Mae plant a phobl ifanc wedi gweld newidiadau sylweddol i addysg o ganlyniad i bandemig Covid-19, gyda sawl cyfnod estynedig o gau ysgolion a newid i ddysgu ar-lein. Yn 2021/22, parhaodd y Cyngor, ysgolion a phartneriaid Iechyd i weithio'n helaeth er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr yng Nghaerdydd, gan sicrhau y gallai ysgolion Caerdydd aros ar agor a chynnal amgylcheddau dysgu diogel i ddisgyblion a staff.

**Er gwaethaf y pandemig, mae cyrhaeddiad addysgol yng Nghaerdydd wedi'i nodweddu gan welliant parhaus o flwyddyn i flwyddyn, gyda lefelau cyrhaeddiad bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer nifer o ddangosyddion allweddol.[2]**

Wrth wraidd y cynnydd hwn mae gweledigaeth a fframwaith cryf y ddinas ar gyfer gwella addysg a gweithio mewn partneriaeth yng Nghaerdydd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yna rai grwpiau o ddysgwyr, fel sy'n wir ar draws y wlad, gan gynnwys disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, nad ydynt yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig, a dyma'r sefyllfa ar draws y wlad. Er bod peth cynnydd yn cael ei wneud o ran gwella deilliannau addysgol i grwpiau allweddol o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni, mae'r deilliannau ar gyfer rhai grwpiau yn parhau'n rhy isel.

O ganlyniad i brofiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf ac ystyried y cynnydd hyd yma, mae partneriaid dinesig ar hyn o bryd yn gweithio i ailffocysu blaenoriaethau Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu. Bydd hyn yn cynnwys ffocws parhaus ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed.




2 Er bod cyflwyno fframwaith perfformiad cenedlaethol newydd yn golygu nad oes data cymharu cenedlaethol o flwyddyn i flwyddyn ar gael, mae perfformiad cyffredinol ysgolion Caerdydd wedi dangos gwelliant nodedig dros y pum mlynedd diwethaf. Ceir tystiolaeth o hyn yng ngoleuni canlyniadau arolwg Estyn, categoreiddio cenedlaethol a chyrhaeddiad ar draws pob cyfnod allweddol o addysg o gymharu â Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD) a chyfartaleddau cenedlaethol.

**Dinas sy'n Dda i Blant**

**Ers 2018, gyda lansiad y Strategaeth sy'n Dda i Blant, mae partneriaid y BGC wedi bod yn gweithio tuag at greu Dinas sy'n Dda i Blant.** Mae hyn wedi cynnwys cydweithio â thîm Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF i ymgorffori hawliau plant mewn llywodraethu, polisi ac ymarfer lleol, yn ogystal â chyflwyno mentrau sy'n dda i blant i ddod â phlant a chymunedau yn nes at ei gilydd.

Mae gwaith diweddar wedi cynnwys cefnogi adferiad sy'n dda i blant yn sgil pandemig Covid-19, gan sicrhau bod uchelgeisiau sy'n dda i blant yn cael eu hystyried trwy gydol y gwaith o gyflawni a datblygu'r holl gynlluniau adfer ac adnewyddu. Roedd camau gweithredu yn 2021/22 yn cynnwys cyflwyno nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau ail-ymgysylltu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys 'Gwên o Haf' a 'Gaeaf Llawn Lles'. Yn ogystal, mae'r Dull Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (RRSA), sy'n canolbwyntio ar ddull o ymdrin ag addysg sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n un o elfennau sylweddol Caerdydd sy'n Dda i Blant, wedi denu cryn nifer o ysgolion i ymrwymo iddo, gyda nifer yr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yng Nghaerdydd yn cynyddu'n sylweddol i 80 (o 127) o ysgolion.

**Mae UNICEF UK wedi cydnabod agenda adfer sy'n dda i blant y Cyngor, ac wedi argymell bod Caerdydd yn cyflwyno ei chais am statws Dinas sy'n Dda i Blant ffurfiol yn ddiweddarach eleni.**

**Addewid Caerdydd**

Dros y pum mlynedd diwethaf, un o'r blaenoriaethau allweddol i bartneriaid y BGC oedd sicrhau bod pobl ifanc yn barod am gyfleoedd i gymryd rhan yn y byd gwaith a'u bod yn cael y cyfleoedd hyn. Mae'r 'Ymrwymiad Caerdydd' wedi helpu i sicrhau bod gan bob plentyn fynediad i hyfforddiant, cyflogaeth neu addysg bellach wrth adael yr ysgol, trwy ddod â phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ynghyd, i gysylltu plant a phobl ifanc â'r ystod helaeth o gyfleoedd sydd ar gael. **Mae mwy na 360 o fusnesau wedi ymgysylltu hyd yma neu wedi gwneud addewid penodol i gefnogi ysgolion a phobl ifanc.**

Yn 2021/22, parhaodd Addewid Caerdydd i roi cyngor i bobl ifanc, ysgolion a busnesau, yn ogystal â chyfleoedd i bobl gysylltu, trwy wythnosau 'Agor Eich Llygaid' a Fforymau Busnes. Wrth symud ymlaen, bydd cydweithio yn allweddol er mwyn sicrhau bod cynifer o opsiynau ôl-16 â phosibl ar gael i bobl ifanc tra bod y farchnad swyddi yn parhau i fod mor oriog wedi'r pandemig.

**Iechyd a Lles**

Mae gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, yn benodol, wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r BGC. **Yn 2018, ymrwymodd y BGC i gyflawni dull integredig o ddarparu Cymorth Iechyd Emosiynol a Meddyliol i Blant a Phobl Ifanc.** Mae'r cynnydd yn y maes hwn wedi cynnwys sefydlu **un Pwynt Mynediad Gweinyddol ar gyfer atgyfeirio a chymorth,** gan alluogi clinigwyr a staff ysgolion i gydweithio i benderfynu ar y cymorth mwyaf priodol i berson ifanc. Mae gwefan Lles Emosiynol newydd hefyd wedi'i datblygu er mwyn rhoi gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael ar draws partneriaid a'r gwahanol ffyrdd o'i dderbyn.

Mae'r gwaith hwn yn parhau'n hanfodol –yn enwedig gan fod y pandemig wedi arwain at fwy o alw a chymhlethdod o ran gwasanaethau iechyd meddwl ac ymyriadau brys i blant a phobl ifanc yn lleol. Yn 2021/22, cafodd y ddarpariaeth bresennol ei hadolygu, a gwnaed gwaith i nodi sut y gellir mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Mae angen dull system gyfan wrth symud ymlaen sy'n gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc ac yn rhoi mynediad i wasanaethau arbenigol i'r rhai sydd eu hangen.

Mae iechyd a lles ym mlynyddoedd cynnar plentyndod yn effeithio'n arbennig ar ganlyniadau hirdymor. Er bod lefelau iechyd cyffredinol plant yng Nghaerdydd yn dda, mae plant sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o ddioddef canlyniadau iechyd gwaeth heddiw a dangos symptomau sy'n awgrymu iechyd gwael yn y dyfodol, megis gordewdra a chyfraddau imiwneiddio isel. **Bydd gwella nifer y bobl sy'n cael eu brechu, yn ogystal â chynyddu canran y plant a phobl ifanc sydd â phwysau iach, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, yn cael eu blaenoriaethu wrth symud ymlaen fel rhan o waith y ddinas i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.**

**Plant a Theuluoedd**

Ers 2018, mae'r BGC wedi cefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn radical ar gyfer plant a theuluoedd, gan ganolbwyntio ar atal ac integreiddio gwasanaethau.Yn hanfodol i'r gwaith hwn mae **defnyddio dull 'Ffocws ar y Teulu' sy'n ystyried teuluoedd yn eu cyfanrwydd ac yn cydlynu cymorth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, wedi'i deilwra i angen pob teulu.** Mae partneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector bellach yn gweithio'n llawer agosach gyda'i gilydd, gan sicrhau bod y sgyrsiau cywir yn cael eu cynnal ar yr adeg gywir, rhwng y bobl gywir, gan alluogi atebion i gael eu canfod cyn gynted â phosibl.

Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n wynebu canlyniadau gwael yn ystod eu plentyndod oherwydd Profiadau Niweidiol yn ystod eu Plentyndod megis camdriniaeth, trawma, esgeulustod neu gamfanteisio. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar wella cyflawniad addysgol a dyheadau plant, pobl ifanc a'u rhieni, gan roi'r sgiliau a'r hyder iddyn nhw fanteisio ar gyfleoedd a llwyddo trwy gydol eu bywyd.

**Carreg filltir allweddol i'r BGC oedd lansio Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd (CChDC) ym mis Tachwedd 2019.** Mae'r gwasanaeth yn dwyn ynghyd gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy un pwynt mynediad - y Porth Teuluoedd - gan wella canlyniadau i blant yn y pen draw. Yn ogystal, carreg filltir fwy diweddar i'r BGC oedd cymeradwyo cais Caerdydd i fod yn Arloeswr ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygu systemau blynyddoedd cynnar mwy cydlynol, ymatebol sy'n rhoi'r ffocws ar anghenion unigryw pob plentyn.

Wrth symud ymlaen, mae cynlluniau beiddgar ar waith i integreiddio gwasanaethau i blant a theuluoedd ar lefel leol, gyda thimau amlddisgyblaethol, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau iechyd a gofal, wedi'u lleoli mewn cymunedau lleol i sicrhau eu bod wrth wraidd gweithio ar sail lleoedd.

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd

Cardiff Family Advice and Support




## Amcan Llesiant 2

---

# Mae Caerdydd yn lle Gwych i Dyfu'n h n

---

# Cyflwyniad




Mae sut mae cymdeithas yn trin pobl wrth iddynt heneiddio yn adlewyrchu ei gwerthoedd a'i hegwyddorion, ac yn anfon neges bwysig i genedlaethau'r dyfodol. Mae argyfwng Covid-19 wedi tynnu sylw at y cysylltiad rhwng ynysigrwydd ac iechyd meddwl/corfforol a pha mor bwysig yw hi bod gwasanaethau a rhwydweithiau cymunedol ar gael, yn enwedig i iechyd a lles y genhedlaeth hŷn.

Uchelgais Caerdydd yw i'r ddinas fod yn lle gwych i dyfu'n hŷn, lle mae pobl hŷn wedi'u grymuso'n fwy, lle maent yn iachach ac yn hapusach gyda chymorth gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol rhagorol a lle maent yn rhan o bob rhan o'r gymuned. Mae hyn hefyd yn cynnwys cydnabod ac adeiladu ar y cryfderau y mae pobl hŷn yn eu cynnig i gymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli, rhannu gwybodaeth a sgiliau, yn ogystal ag ymdeimlad o

## Mesur Cynnydd[1]:

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad ystyried y data diweddaraf | Caerdydd yn 2022 | Tueddiad |
|---|---|---|---|
| Canran y bobl 65+ oed a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda | 2017/18 - 2018/19 | 56.1 % | dd/b |
| Canran y bobl 65+ a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth | 2019-20 | 78.9 % | |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo'i angen arnynt | 2019-20 | 77.7 % | |
| Canran yr oedolion 65+ oed a nododd eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw | 2019-20 | 86.7 % | |
| Canran y bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn unig | 2019-20 | 84.8 % | |
| Bodlonrwydd pobl hŷn ar fywyd | 2017/18 - 2018/19 | 84.6 % | dd/b |

# Trosolwg o waith y BGC yn 2018-22

**Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn**

Mae'r BGC yn daer dros sicrhau fod Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn, lle mae pobl hŷn yn fwy grymus, yn iachach ac yn hapusach. Yn ddiweddar cafwyd tystiolaeth o gynnydd y ddinas yn y maes hwn pan ddaeth **Caerdydd yn awdurdod cyntaf Cymru i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn** Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), sy'n gam pwysig yn uchelgais cyffredinol y ddinas i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn.

Sefydlwyd y rhwydwaith yn 2010 i gysylltu dinasoedd, cymunedau a sefydliadau ledled y byd, gyda'r weledigaeth gyffredin o wneud eu cymunedau'n lle gwych i dyfu'n hŷn. **Mae statws aelodaeth newydd y ddinas yn ganlyniad cydweithio helaeth rhwng rhanddeiliaid ar draws y ddinas** - gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru, sefydliadau addysgol a sefydliadau trydydd sector - er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl hŷn yng Nghaerdydd, sydd wedi arwain at greu Cynllun Gweithredu sy'n Dda i Bobl Hŷn deinamig.

Wrth wraidd y Cynllun Gweithredu mae cydnabod pobl hŷn fel poblogaeth amrywiol sy'n cael ei pharchu a ddylai allu cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd a chyfrannu ati. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau i bobl hŷn, sy'n ymwneud â thai, trafnidiaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau sydd â gwerth.

Mae fframwaith gwerthuso yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel dull o olrhain cynnydd y ddinas o ran ei gwneud yn lle gwych i bobl hŷn fyw. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu platfform digidol Sy'n Dda i Bobl Hŷn, i gynyddu amlygrwydd gweithredoedd a mentrau Sy'n Dda i Bobl Hŷn a gynhelir ar draws y ddinas.

**Dinas sy'n Deall Dementia**

Mae'r risg o ddatblygu dementia yn seiliedig ar oedran. Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu, bydd nifer y bobl sydd â dementia hefyd yn cynyddu. Dyna pam mae'r BGC hefyd wedi ymrwymo i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Ddeall Dementia. Wedi'i lansio ym mis Mai 2018, rydym wedi gwneud cynnydd mawr gyda Caerdydd sy'n Deall Dementia i annog a chefnogi sefydliadau, busnesau lleol a grwpiau cymunedol yn y ddinas i fod yn fwy ystyriol o ddementia. Cynhaliwyd dros 600 o ddigwyddiadau digidol Dinas Sy'n Deall Dementia yn ystod 2021, gan godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael ledled Caerdydd.

Ers 2018, mae cerrig milltir allweddol yn cynnwys y Gwasanaeth Dydd Dementia yn y Rhodfa Fawr, sydd wedi'i integreiddio gyda gwasanaethau iechyd, i ddarparu amgylchedd cefnogol i bobl sy'n byw gyda dementia. Mae dwy ganolfan ddydd arall, yn Llanrhymni a'r Tyllgoed, hefyd wedi cael eu hadnewyddu gyda dyluniadau sy'n ystyriol o ddementia.

Lansiwyd gwefan a hyb adnoddau Caerdydd sy'n Deall Dementia ym mis Hydref 2020, gan gynnig 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth am wasanaethau a chymorth yn y ddinas.

Yn y dyfodol, bydd gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i ymgorffori arferion gorau sy'n seiliedig ar ymchwil mewn dulliau gweithredu, gan sicrhau bod hyn yn dylanwadu ar y ffordd y comisiynir gwasanaethau ym maes gofal cymdeithasol a bod lleisiau dinasyddion Caerdydd yn cael eu clywed.

**Ailddychmygu Heneiddio**

Mae 'Ailddychmygu Heneiddio i'r Dyfodol', Adroddiad Blynyddol 2019 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, a gyhoeddwyd yn 2020, yn canolbwyntio ar dair thema allweddol sy'n dylanwadu ar allu pobl i heneiddio'n iach a chael bywyd da, gan brofi ymdeimlad o ystyr a phwrpas mewn bywyd; bod â chysylltiadau cymdeithasol da; a byw mewn mannau sy'n eu galluogi i aros yn ddiogel, yn weithgar, ac yn annibynnol. **Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at feysydd lle mae angen i'r BGC roi ei ffocws yn y dyfodol, gan ystyried yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar les corfforol a meddyliol pobl hŷn.**

Bu pandemig Covid-19 yn risg fawr i bobl hŷn yn ein dinas, a nhw sydd wedi dioddef fwyaf o'i herwydd. Mae hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus i lawer o bobl hŷn yn y ddinas, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Er mwyn ymateb i her y pandemig, a sicrhau bod pobl hŷn y ddinas yn gallu parhau i gael cymorth yn ddiogel, **mae gwasanaethau wedi'u hail-lunio a mesurau gofal a chymorth ychwanegol wedi'u rhoi ar waith, gan fynd â gwaith partneriaeth ac integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y ddinas i lefel newydd.**

Wrth i Gaerdydd adfer yn sgil y pandemig, mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi pobl hŷn y ddinas, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.


> "Caerdydd... lle mae pobl hŷn yn cael eu grymuso, yn iach ac yn hapus"

**Cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol**

Bydd hi'n bwysig fod cymunedau newydd yn cael eu cynllunio yn y fath fodd fel y byddant yn bodloni anghenion pobl hŷn, gyda dewisiadau tai yn cael eu datblygu sy'n rhoi'r gallu i bobl fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau cyhyd ag sy'n bosibl. Mae Strategaeth Tai Pobl Hŷn, a gyhoeddwyd yn 2019, yn parhau i gael ei rhoi ar waith ar draws Caerdydd fel rhan o'r gwaith hwn, **gyda datblygiad manyleb gofal barod yn gosod safon uchel ar gyfer opsiynau tai addasadwy, deniadol ac wedi'u dylunio'n dda i bobl hŷn.**

Mae'r BGC yn ymrwymedig i roi gwell ansawdd bywyd i bobl trwy eu helpu i fyw'n annibynnol. Mae mwy o bobl wedi cael eu grymuso i aros yn annibynnol gartref trwy ddatblygu **ystod lawn o fesurau cymorth ataliol sydd ar gael trwy'r Gwasanaethau Byw'n Annibynnol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno dull 'Un Pwynt Mynediad ar gyfer Rhyddhau' amlddisgyblaethol ar gyfer cyflymu'r broses o ryddhau cleifion yn ddiogel,** i bobl y gallai fod angen peth cymorth neu ofal arnynt i ddychwelyd adref.

Oherwydd newid llwyddiannus i weithio gartref mae'r Tîm Ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf (y 'Fyddin Binc') sy'n cynnwys partneriaid o'r sector cyhoeddus a'r gymuned ynghyd â phartneriaid trydydd sector eraill wedi parhau i ddiwallu anghenion cleifion a'u cefnogi wrth ddychwelyd i fod yn annibynnol.




The
Yr
hyb
The
Yr
hyb


Amcan Llesiant 3

# Cefnogi Pobl allan o Plodi


# Cyflwyniad

Mae perfformiad Caerdydd ar draws amrywiaeth o ddangosyddion llesiant yn cuddio anghydraddoldebau dwfn sydd wedi ymwreiddio ar draws y ddinas. Mae mwy na 60,000 o bobl yng Nghaerdydd yn byw ymysg y 10 % o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Gall byw mewn tlodi daflu cysgod hir dros fywydau pobl - mae disgwyliad oes a dangosyddion iechyd eraill yn is yn wardiau mwyaf difreintiedig Caerdydd, mae ansawdd aer yn waeth, mae llai o fynediad i fannau gwyrdd ac mae cyfradd troseddu'r ddinas ar ei huchaf yn yr ardaloedd hyn. Mae Covid-19 wedi cael mwy o effaith ar gymunedau mwy difreintiedig o ran marwolaethau, ac mae'r effaith economaidd yn debygol o daro cymunedau tlotach yn galetach yn y tymor byr, canolig a hir.




# Mesur Cynnydd[1]:

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad ystyried y data diweddaraf | Caerdydd yn 2022 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| Canran yr aelwydydd mewn tlodi (h.y. o dan 60 % o'r incwm canolrifol) fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (wedi costau tai) * | | 2019-20 | 13 % |  |
| Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith hirdymor (h.y. dros 12 mis) ** | | Mai-22 | 370 |  |
| Disgwyliad oes iach adeg geni (dynion a menywod) | Gwrywaidd | 2017-19 | 61.9 oed |  |
| | Benywaidd | 2017-19 | 62.5 oed |  |
| Canran y babanod pwysau geni isel | | 2020 | 6.0 % |  |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd *** | | 2018-19 & 2019-20 | 34 % |  |
| Canran yr oedolion sy'n actif am lai na 30 munud yr wythnos *** | | 2018-19 & 2019-20 | 29 % |  |
| Canran yr oedolion sy'n ysmygwyr ar hyn o bryd *** | | 2018-19 & 2019-20 | 14 % |  |
| Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i'r cyflog gros blynyddol canolrifol | | 2020 | 7.63 |  |
| Cysgwyr stryd fesul 10,000 person **** | | 2019-20 | 2.5 | n/a |
| Tlodi bwyd | Cartrefi sy'n Profi Newyn | Ion-21 | 3.98 % | n/a |
| | Amcangyfrif o Ganran yr Aelwydydd sy'n Profi Anawsterau gyda Diffyg Diogeledd Bwyd | Ion-21 | 10.67 % | n/a |
| | Amcangyfrif o Ganran yr Aelwydydd sy'n Poeni am eu Diogeledd Bwyd | Ion-21 | 10.77 % | n/a |
| Tlodi tanwydd | | 2018 | 9 % | n/a |

*Data refers to percentage of households in material deprivation
**Mae ffigurau'n cael eu rhyddhau'n fisol. Fodd bynnag, mae'r siart tueddiadau ond yn cynnwys ffigurau ar gyfer mis Mai yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'n bosibl bod cyflwyno Credyd Cynhwysol yn effeithio ar duedd.
***Caiff y ffigurau eu safoni yn ôl oedran ****Nid oes modd cymharu'r ffigurau diweddaraf â'r blynyddoedd blaenorol

# Trosolwg o waith y BGC yn 2018-22

**Dinas Cyflog Byw**

**Ym mis Tachwedd 2019, cydnabuwyd Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw.** Mae bron pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus bellach yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig neu'n gwneud cais i fod yn gyflogwr achrededig, gan helpu i godi pobl allan o dlodi a chreu cymdeithas decach a mwy cyfartal. Wrth i sefydliadau 'angori' Cyflog Byw, mae aelodau o'r BGC wedi hyrwyddo buddion y Cyflog Byw Gwirioneddol ac mae sefydliadau a busnesau eraill wedi dilyn eu hesiampl.

**Erbyn hyn mae 164 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd, gyda chyfanswm o 41 yn cael eu hachredu yn ystod 2021/22, sef y mwyaf erioed.** Mae tua 64,500 o bobl bellach yn gweithio i gyflogwr Cyflog Byw achrededig, gyda bron 8,000 o'r gweithwyr hyn yn derbyn codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Ers 2012, amcangyfrifir bod £39m ychwanegol wedi mynd i economi Caerdydd.

**'Dim Mynd Nôl'**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gefnogi pobl i adael strydoedd y ddinas. O uchafswm o dros 130 o bobl, dim ond 11 o bobl sy'n cysgu ar strydoedd Caerdydd erbyn hyn. Mae hynny'n dal i fod yn 11 yn ormod ond, **gan adeiladu ar ymateb y bartneriaeth i'r pandemig, datblygwyd dull newydd o fynd i'r afael â digartrefedd, 'Dim Mynd Nôl'.**

**Mae 'Dim Mynd Nôl' yn symud i ffwrdd o'r model 'grisiau' safonol o hostelau a llety â chymorth i asesiad anghenion unigol, atgyfeirio uniongyrchol i ddarpariaeth ailgartrefu a chymorth cofleidiol amlasiantaethol i helpu unigolion i fyw'n annibynnol.** Mae wedi cynnwys ehangu'r Tîm Amlddisgyblaethol, sydd wedi'i ffurfio o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr camddefnyddio sylweddau yn ogystal â swyddogion tai, heddlu a phrawf, i ddarparu dull gofal iechyd cynhwysfawr a rheoli achosion, gan dargedu'r rhai sydd wedi'u dal yn y patrwm o fod yn ddigartref a threulio cyfnodau hir o gysgu ar y stryd.

Yn ystod 2021/22, cafodd nifer o gynlluniau i ddarparu llety â chymorth ar y safle eu datblygu a'u cwblhau. Mae cam 1 cynllun cymorth pobl sengl Adams Court wedi'i gwblhau, gyda disgwyl i gam 2 gael ei weithredu'n ddiweddarach yn yr haf. Mae Canolfan Digartrefedd Teuluol wedi agor yn Briardene yng Ngabalfa, gan ddarparu llety dros dro i deuluoedd a mynediad i amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys Cymorth Cynnar, ymweliadau iechyd a chymorth rhianta. Mae dwy ganolfan arall hefyd fod i agor yn ystod y flwyddyn nesaf - un ar safle'r Gwaith Nwy yn Grangetown a'r llall yn Harrison Drive yn Trowbridge.

Bydd y dull hwn yn parhau i gael ei ddatblygu wedi cymeradwyaeth Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Caerdydd 2022-2026 gyda ffocws ar gefnogi a chynorthwyo pobl sy'n cysgu ar y stryd i gael mynediad i lety, cynnal llety a symud tuag at fyw'n annibynnol cyn gynted â phosibl.

**Dull System Gyfan o Fynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd**

Er bod lefelau iechyd cyffredinol yng Nghaerdydd yn uchel, mae gwahaniaethau clir yng nghanlyniadau iechyd rhwng ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig y ddinas a disgwylir i effaith y pandemig ehangu anghydraddoldebau iechyd dros y blynyddoedd i ddod. Mewn ymateb i'r her hon ac yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2020 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoeddus, 'Let's Leave No One Behind', **mae imiwneiddio yn ystod plentyndod, sgrinio, pwysau iach ac ansawdd aer yn cael eu blaenoriaethu ac mae dull system gyfan yn cael ei ddatblygu i gefnogi poblogaeth iachach a mwy heini.**

Ym mis Gorffennaf 2020 lansiwyd 'Symud Mwy, Bwyta'n Dda 2020-2023', cynllun a ddatblygwyd ar y cyd gan BGC Caerdydd a BGC y Fro i fynd i'r afael â gordewdra, yn ogystal ag anghydraddoldeb iechyd. **Er mwyn darparu dull system gyfan, mae strategaethau partner allweddol sy'n ymwneud â phwysau iach, bwyd, teithio llesol, a gweithgarwch corfforol bellach yn cael eu halinio i fwrw ymlaen â meysydd blaenoriaeth y cynllun.** Mae strategaethau allweddol yn cynnwys 'Strategaeth Bwyd Da 2021-2024' Bwyd Caerdydd i sicrhau bod gan bawb fynediad i fwyd sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn iachus ac yn fforddiadwy, a Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd 2022-2027. Bydd camau i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn dod yn rhan o bolisi ac ymarfer ar draws cynllunio, trafnidiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, datblygu economaidd, addysg a'r amgylchedd. Bydd y camau'n cynnwys gwneud y defnydd gorau o barciau a mannau gwyrdd Caerdydd, cefnogi teithio llesol, creu cymunedau ar-lein ac mewn 'bywyd go iawn' i hyrwyddo gwerth cadw'n heini, yn ogystal â datblygu ystod eang o raglenni gweithgarwch corfforol ar draws y system sy'n hygyrch i bawb.


W
HOWE


## Amcan Llesiant 4

# Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

# Cyflwyniad

Mae cymunedau diogel, hyderus a grymus wrth wraidd ein llesiant. Mae ganddynt rôl unigryw i'w chwarae pan ddaw i'r hyn sydd bwysicaf i ni - ein hamgylchedd, ein diogelwch, ein lles, ein hiechyd a'n hapusrwydd.

Yn aml mae gan gymunedau'r wybodaeth, y sgiliau, y brwdfrydedd, y creadigrwydd a'r ddealltwriaeth o'r ardal leol nad oes gan ddarparwyr gwasanaethau. Ac, mewn cyfnodau o adfyd, fel pandemig Covid-19, profwyd bod cymunedau cryf yn werthfawr o ran helpu gwasanaethau i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed.  Mae sicrhau bod cymunedau lleol yn ddiogel ac yn rymus felly'n rhan allweddol o greu dinas lwyddiannus.




## Mesur Cynnydd[1]:

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad ystyried y data diweddaraf | Caerdydd yn 2022 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| % sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch | | 2020-21 | 69 |  |
| % sy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol | | 2020-21 | 24 |  |
| Pobl yn teimlo'n ddiogel yn y sefyllfaoedd canlynol: | Wrth gerdded yn eich cymdogaeth yn ystod y dydd | 2020 | 94.8 |  |
| | Wrth gerdded yn eich cymdogaeth gyda'r nos | 2020 | 58.7 |  |
| | Wrth gerdded yng nghanol y ddinas yn ystod y dydd | 2020 | 89.2 |  |
| | Wrth gerdded yng nghanol y ddinas gyda'r nos | 2020 | 37.0 |  |
| % y troseddwyr sydd yn ail-droseddu | | Ion 19 – Rhag 19 | 37.2 % |  |
| % cleientiaid y gwasanaethau camddefnyddio sylwed-dau sydd wedi nodi gwelliant yn ansawdd eu bywydau | | 2020/21 | 83.0 % |  |
| % oedolion (16+ oed) sy'n gwirfoddoli | | 2019-20 | 26 % |  |

# Trosolwg o waith y BGC yn 2018-2022

**Gwaith Partneriaeth Effeithiol**

**Ers gosod ei flaenoriaethau yn 2019, mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y BGC wedi dilyn llwybr o ddatblygu parhaus,** gyda lefelau digynsail o weithio mewn partneriaeth yn ystod pandemig Covid-19, ac yna cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd gan sicrhau cefnogaeth strategol a rhannu gwybodaeth ar bob lefel.

Ar ôl codi cyfyngiadau, sefydlwyd 4 grŵp blaenoriaeth ac maent bellach yn bwrw ymlaen â gwaith y bartneriaeth:

- **Ffyrdd o Fyw ar y Stryd ac Anghenion Cymhleth**: Er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y digartref a rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed ar ein strydoedd, mae'r grŵp hwn yn defnyddio dull iechyd cyhoeddus o ymdrin â'r rhesymau craidd sy'n arwain at gamddefnyddio sylweddau ac effaith hyn ar gymunedau, cardota ymosodol a gwaith rhyw. Mae'r gwaith hyd yma wedi cynnwys cefnogi'r rhaglen frechu; cyflwyno'r amnewidyn cyffur newydd Buvidal, gyda nifer sylweddol o breswylwyr ag anghenion cymhleth yn cael triniaeth sefydlog a chyson trwy'r Prosiect Mynediad Cyflym i Gymorth Rhagnodi; a gwaith treialu llwyddiannus i fynd i'r afael â mannau problemus a nodwyd y mae ffyrdd o fyw ar y stryd yn effeithio arnynt.

- **Atal Trais:** Mae'r grŵp hwn yn defnyddio dull iechyd cyhoeddus o ddeall achosion a chanlyniadau trais difrifol. Mae meysydd dan sylw yn cynnwys Economi'r Nos, Trais Difrifol, Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Er mwyn llywio datblygiad Strategaeth Atal Trais, **crëwyd dangosfwrdd cudd-wybodaeth gan ddefnyddio data'r heddlu, sy'n darparu gwybodaeth ddaearyddol a thueddiadau i nodi materion sy'n dod i'r amlwg.** Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i greu cysylltiadau â Phorth Cudd-wybodaeth Uned Atal Trais Cymru a sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth ar draws y bartneriaeth.

- **Datrys Problemau:** Mae gwaith y grŵp newydd hwn, sy'n cynnwys dros 30 sefydliad, wedi arwain yn gyflym at ddatrys problemau diogelwch cymunedol a oedd angen ymateb partneriaeth arnynt, a hynny trwy gyflwyno mesurau dargyfeiriol a diogelwch cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned. Yn benodol, mae cais llwyddiannus Caerdydd i'r Swyddfa Gartref am gyllid Strydoedd Saffach wedi'i ddefnyddio i wella goleuadau stryd a gosod 20 o gamerâu teledu cylch cyfyng, yn ogystal â mesurau diogelwch eraill, mewn rhannau o'r ddinas sydd â lefelau uchel o droseddu feddiangar, **sydd wedi cael effaith uniongyrchol ar lefelau troseddu ac adrodd am droseddau gan drigolion lleol.**

- **Prevent:** Diben Prevent yw diogelu pobl sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio ac atal eraill rhag camfanteisio arnynt i'w hannog i gefnogi terfysgaeth. Mae hefyd yn ymwneud ag adeiladu gwydnwch mewn cymunedau trwy amrywiaeth o brosiectau a sefydliadau cymdeithas sifil. Yn ogystal â phrosiectau diogelwch ac arweinyddiaeth ar draws ystod eang o grwpiau poblogaeth, mae cynrychiolwyr o sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol wedi'u hyfforddi i fod yn 'Hyrwyddwyr Atal', a allai helpu i ddarparu gwasanaethau ar lefel leol. Ers Mehefin 2021, mae 12 sefydliad trydydd sector wedi cwblhau hyfforddiant Hyrwyddwyr Atal ac mae 4 sefydliad wedi mynd ymlaen i wneud cais llwyddiannus am arian i gyflawni prosiectau lleol yn 2022/23.

**Dull Integredig o Fynd i'r Afael â Chamfanteisio**

Yn 2019, cyflwynodd Caerdydd Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion gyfunol, gan nodi ymrwymiad gwasanaethau cyhoeddus i sefyll gyda'i gilydd i atal camfanteisio, amddiffyn a chefnogi'r rhai y mae camfanteisio'n effeithio arnynt ac erlyn a rhwystro cyflawnwyr a throseddwyr. Wedi'i datblygu gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a'i mabwysiadu gan Fwrdd Cyflawni Diogelwch Cymunedol y BGC, mae'r strategaeth wedi'i rhoi ar waith mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar.

Ers cyhoeddi'r strategaeth, mae gwaith wedi mynd rhagddo i ymdrin â themâu camfanteisio newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, megis caethwasiaeth fodern. Yn benodol, mae partneriaid wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu dull o ddiogelu cyd-destunol, gan gydnabod y gall y gwahanol berthnasoedd y mae pobl ifanc yn eu meithrin yn eu cymdogaethau, eu hysgolion ac ar-lein y tu allan i'r uned deuluol gynnwys trais a cham-drin.

**Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid – 'Ein Dyfodol Ni i Gyd'**

**Cafodd Strategaeth Datblygu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd, 'Ein Dyfodol Ni i Gyd', ei lansio yn 2020. Ers hynny gwnaed cynnydd sylweddol o ran deall anghenion pobl ifanc a sut i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol.**

Cyflawnwyd hyn trwy ddull 'plant yn gyntaf' o ymdrin â chyfiawnder ieuenctid gan sicrhau, trwy ymgysylltu â phobl ifanc, bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar blant yn hytrach na chanolbwyntio ar wasanaethau ac yn diwallu eu hanghenion unigol. Mae hyn wedi arwain at well cysylltiadau rhwng partneriaid, a chryfhau arweinyddiaeth a threfniadau gweithio ar y cyd i gefnogi'n well y rhai sy'n helpu plant i sicrhau canlyniadau gwell.

Wrth fwrw ymlaen â'r dull hawliau plant hwn, bu ymgysylltu â phobl ifanc wrth wraidd y gwaith o ddatblygu Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid 2022-24 Caerdydd, 'Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd'. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i weithio gyda phlant, teuluoedd a phartneriaid i ddatblygu ymarfer sy'n seiliedig ar egwyddorion Dinas sy'n Dda i Blant, yn ogystal â dulliau Seiliedig ar Drawma ac Ymarfer Adferol, sy'n cael eu llywio gan ddiogelu cyd-destunol. Mae hefyd yn ymrwymo i ddatblygu dull system gyfan o atal plant rhag dod i mewn i'r system gyfiawnder a chefnogi pobl ifanc i fod mewn lle mwy diogel er mwyn gwneud dewisiadau bywyd gwell.

**Tasglu Cydraddoldeb Hiliol**

**Yn 2020, daeth partneriaid o'r sector cyhoeddus a chyflogwyr mawr at ei gilydd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.** Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud o ran cyflogaeth, recriwtio, gweithlu cynrychioliadol, llwybrau at addysgu a dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â chydraddoldeb hiliol. Roedd y blaenoriaethau hefyd yn cynnwys anghydraddoldebau iechyd, llais y dinesydd a'r System Cyfiawnder Troseddol.

Yn 2022, cyhoeddodd y Tasglu ei adroddiad terfynol ynghyd ag argymhellion ar gyfer bwrw ymlaen â gwaith Caerdydd yn y dyfodol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**Dinas Gynhwysol**

**Fel un o ddinasoedd sylfaenol y Rhaglen Dinasoedd Cynhwysol, mae Caerdydd wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn cael eu cynnwys, gan gynnwys dinasyddion yr UE, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.** Yn ogystal â'r ymgyrch lwyddiannus iawn i gefnogi dinasyddion cymwys yr UE i wneud cais am Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, mae Caerdydd wedi chwarae rhan allweddol wrth ymateb i argyfwng Affganistan, gan ddarparu cymorth derbyn i alluogi faciwîs i gael mynediad i wiriadau iechyd, addysg, dosbarthiadau Cymraeg a Saesneg a chyngor cyflogaeth. Er mwyn cefnogi cynnwys mudwyr sydd â statws mewnfudo ansicr, datblygwyd dull cynhwysfawr o helpu mudwyr gyda Dim Modd Hawlio Arian o Gronfeydd Cyhoeddus yn ddiweddar gan sicrhau mynediad i lety a chyngor cyfreithiol arbenigol sy'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol.

Yn ogystal, mae Caerdydd wedi cydweithio â phartneriaid rhanbarthol i weithredu'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol newydd ar gyfer Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC), gan gynnwys datblygu opsiynau llety a lleoliadau, cymorth addysg, mynediad i wasanaethau iechyd a chyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol. Mae lansio Canolfan Groesawu UASC ar Colum Road yng Nghaerdydd wedi bod yn ddatblygiad allweddol, gan ddarparu cymorth cofleidiol a llety 24/7 ar gyfer plant digwmni sy'n ceisio lloches – 16 a 17 oed - wrth gyrraedd, tra bod lleoliad mwy hirdymor yn cael ei drefnu.

**'Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd'**

Mae Gwirfoddoli Caerdydd (www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk), wedi dod yn borth sefydledig ar gyfer gweithgarwch dinesig, gan gyfeirio trigolion Caerdydd at yr holl gyfleoedd, sefydliadau a chymorth sydd ar gael i alluogi gwirfoddoli yn y gymuned

Yn ystod y pandemig, bu'r porth yn cynnal y fenter 'Gyda'n Gilydd dros Gaerdydd'. Fe wnaeth 1,000 o wirfoddolwyr helpu'r rhai mwyaf agored i niwed i gael gafael ar fwyd a nwyddau meddygol yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Parhaodd bron 500 i gefnogi banciau bwyd ac ymunodd 23 o wirfoddolwyr â chynllun cyfeillio newydd a gafodd ei ariannu gan Age UK, a oedd yn rhoi cymorth i'r rhai oedd yn teimlo'n unig neu'n ynysig yn ystod y pandemig.

Er mwyn adeiladu ar y lefel hon o wirfoddoli, mae partneriaid yn y sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gyd-gynhyrchu Strategaeth Menter Wirfoddol, Gymunedol a Chymdeithasol (MWGCh) newydd. Nod y Strategaeth yw cryfhau rôl y sector MWGCh wrth ddarparu atebion i heriau'r Ddinas a chefnogi gwaith partneriaeth yn y dyfodol.




## Amcan Llesiant 5

# Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru

# Cyflwyniad

Caerdydd yw prifddinas economaidd, wleidyddol a diwylliannol Cymru. Yn ogystal â chwarae rhan hanfodol wrth greu swyddi a denu buddsoddiad i Gymru, mae'n gartref i chwaraeon, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau, yn cynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol rhyngwladol mawr, ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus arbenigol i bobl y Brifddinas-ranbarth ehangach.

Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae angen economi ddinesig gref i ymateb i effeithiau'r pandemig ac arwain yr adferiad. Yn benodol, mae angen cyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn y sectorau lletygarwch, manwerthu a diwylliannol a rhaid i fuddsoddiad ym mhrif brosiectau'r ddinas barhau i ddenu busnesau a swyddi gwerth uchel i'r ddinas a'r economi ehangach.




# Mesur Cynnydd[1]:

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad ystyried y data diweddaraf | Caerdydd yn 2022 | Caerdydd yn 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd diweithdra | | Gorff 2020 - Meh 2021 | 5.1 % | |
| GYG y pen | | 2019 | £32,333 | |
| Incwm Gwario Gros Aelwyd y pen | | 2019 | £17,431 | |
| Swyddi cyflogeion â chyfradd tâl yr awr yn is na'r Cyflog Byw Gwirioneddol | | 2021 | 11.6 % | |
| Poblogaeth (16-64) sydd wedi cymhwyso hyd at NVQ4+ | | Ion 20 – Rhag 20 | 49.2 % | |
| % y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn | | 2019-20 | 84 % | |
| % y bobl a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd celfyddydol yn y 12 mis diwethaf | Mwyaf difreintiedig | 2020 | 67.6 % | |
| | Y mwyaf difreintiedig nesaf | 2020 | 76.4 % | |
| | Canol | 2020 | 81.1 % | |
| | Nesaf at y lleiaf difreintiedig | 2020 | 81.7 % | |
| | Lleiaf difreintiedig | 2020 | 85.0 % | |
| % yr Oedolion sy'n Siarad Cymraeg | | 2019-20 | 10 % | |

# Trosolwg o waith y BGC yn 2018-22

**Ymateb i'r Pandemig**

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar economi Caerdydd, gan achosi sectorau allweddol sy'n cyflogi niferoedd uchel o drigolion mewn swyddi lletygarwch, manwerthu, hamdden a diwylliannol, i gau am gyfnodau estynedig. Roedd y cyfnodau clo'n effeithio'n benodol ar y rhai oedd mewn gwaith ansicr a chyflogau isel, gyda llawer o bobl ifanc yn colli eu swyddi neu wedi'u hatal rhag mynd i fyd gwaith. Yn ogystal, lleihaodd busnesau ledled y DU eu gweithlu, nid yn unig o ganlyniad i effaith economaidd y pandemig ond mewn ymateb i newid arferion defnyddwyr sydd wedi cyflymu'r duedd o wneud mwy o ddefnydd ar siopa ar-lein.

Fel ymateb uniongyrchol, bu'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Ardal Gwella Busnes (Caerdydd AM BYTH) y ddinas i addasu mannau cyhoeddus i ddarparu ardaloedd sy'n ddiogel o ran Covid yng nghanol y ddinas a chyflwyno trefniadau trwydded newydd i alluogi busnesau i barhau i fasnachu. I gefnogi busnesau, diogelu swyddi a chreu cyfleoedd i bobl ifanc, cafodd bron 20,000 o fusnesau gymorth a thalwyd dros £120 miliwn mewn cymorth ariannol yn ystod cyfnod y pandemig. Bydd y Cynllun Kickstart yn darparu cyllid i greu lleoliadau swyddi newydd i bobl ifanc 16 i 24 oed sy'n cael Credyd Cynhwysol ac sy'n wynebu risg o ddiweithdra hirdymor ar draws y sector cyhoeddus. Ar ben hynny, roedd y BGC, ynghyd â busnes, yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni 'Addewid Caerdydd', strategaeth ymgysylltu a dilyniant y ddinas sy'n helpu pob plentyn i gael mynediad I hyfforddiant, cyflogaeth neu addysg bellach pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol.

**Adfer ac Adnewyddu**

Er bod lefelau uchel a pharhaus o ddiweithdra yng Nghaerdydd wedi cael eu hosgoi, mae effaith barhaus y pandemig ar bob agwedd ar yr economi wedi amlygu'r angen i newid y ffordd rydyn ni'n byw ac yn gwneud busnes. Yn gyffredinol, mae anghydraddoldebau economaidd ac iechyd a fodolai cyn y pandemig wedi gwaethygu. Cafwyd newid i weithio gartref, newid cyflym i siopa ar-lein (er bod canol y ddinas wedi parhau i fod yn wydn fel cyrchfan ar gyfer siopa, bwyta ac yfed) ac ailddarganfod yr ardal leol, gan roi cyfle i gymdogaethau glanach, gwyrddach, mwy diogel a chynaliadwy.

Mewn ymateb, mae **strategaeth adfer ac adnewyddu'r ddinas, Gwyrddach, Tecach, Cryfach, wedi nodi 6 chenhadaeth i'r sectorau cyhoeddus a phreifat weithio gyda'i gilydd i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd hyn:**

- **Cenhadaeth 1: Ailddychmygu canol y ddinas -** ymateb i newid yn y stryd fawr a gweithio hybrid, gan sicrhau bod canol y ddinas yn gyrchfan ar gyfer busnes, siopa, diwylliant a hamdden
- **Cenhadaeth 2: Dinas i Bawb –** mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd ac iechyd
- **Cenhadaeth 3: Dinas Pentrefi -** ffocws newydd ar economïau lleol a theithio llesol
- **Cenhadaeth 4: Adnewyddu dan arweiniad diwylliant a chwaraeon -** datblygu asedau creadigol, diwylliannol a chwaraeon y ddinas i gefnogi ei heconomi a lles ei thrigolion
- **Cenhadaeth 5: Dinas Dechnoleg –** cefnogi busnesau a'r sectorau arloesi/gwyddoniaeth
- **Cenhadaeth 6: Adfer Un Blaned -** cyflwyno Strategaeth a Chynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned gyda'r nod o wneud Caerdydd yn ddinas carbon niwtral erbyn 2030

**Brexit**

Fe wnaeth y BGC arwain y ffordd wrth gefnogi busnesau, trigolion yr UE ac unigolion yn sgil Brexit.
Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 'Brexit: Goblygiadau i Gaerdydd', mae tudalen we 'Caerdydd a Brexit' wedi bod yn cyfeirio busnesau, trigolion ac unigolion yr UE at arweiniad a chymorth. Roedd rhaglen ymgysylltu a chefnogi digidol hynod lwyddiannus yn helpu gwladolion yr UE i wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, os nad oeddent wedi gwneud hynny eto. Erbyn y dyddiad cau ym mis Mehefin 2021, gwnaed 23,990 o geisiadau i'r cynllun, yn unol â'r amcangyfrif uchaf ar gyfer nifer y gwladolion cymwys yr UE yng Nghaerdydd.

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud – ac wrthi'n cael ei wneud – i baratoi ar gyfer effeithiau Pontio o'r UE ar draws y ddinas ac ymateb iddynt. Ynghyd â Covid-19, bydd Brexit yn parhau i gael effaith ddofn ar economi Cymru. Fodd bynnag, mae ymdrechion i fodelu'r effeithiau byrdymor yn creu canlyniadau ansicr. Mae modelu helaeth o'r effeithiau tymor canolig tebygol yn amcangyfrif y bydd hyn yn waeth mewn rhai sectorau. Y sectorau sydd fwyaf agored i effeithiau pontio o'r UE yw'r rhai sy'n dibynnu ar fewnforio ac allforio i'r UE, megis y sector amaethyddol a bwyd, a'r sectorau gweithgynhyrchu a dur.

Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod Caerdydd yn gallu elwa o raglenni olynol i Ffrydiau Cyllid Ewropeaidd, megis Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU. **Mae'r sefyllfa ledled Caerdydd – yn ogystal ag ar draws Cymru – yn symud tuag at ymgorffori effeithiau Brexit mewn trefniadau 'busnes fel arfer' ledled y ddinas,** gan sicrhau ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd, yn unol ag adferiad ar ôl Covid.



BUS

## Amcan Llesiant 6

# Mae Caerdydd yn Tyfu mewn Ffordd Gadarn

# Cyflwyniad

Mae Caerdydd yn ddinas sy'n tyfu.  Mae dinasoedd llwyddiannus yn cynnwys y rheiny y mae pobl eisiau byw ynddynt a chroesewir y twf hwn ac mae'n arwydd o gryfder ar gyfer y ddinas.   Fodd bynnag, bydd y twf hwn yn cyflwyno'i heriau hefyd, gan roi pwysau ar seilwaith ffisegol y ddinas a'i hamgylchedd naturiol.   Bydd sicrhau bod y twf hwn yn gynaliadwy a bod her yr argyfwng hinsawdd a her ansawdd yr aer yn cael eu hwynebu, yn her hirdymor fawr i Gaerdydd.




# Mesur Cynnydd[1]:

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad ystyried y data diweddaraf | Cerdydd yn 2022 | Tueddiad |
|---|---|---|---|
| Allyriadau CO2 y pen (t) | 2019 | 4.4 |  |
| % teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gynaliadwy | 2019/20 | 51.2 % |  |
| Cyfartaledd crynodiad NO2 mewn lleoliadau preswyl | 2019 | 16 |  |
| Parciau achrededig Baner Werdd | 2021/22 | 16 |  |
| Eiddo a gofrestrwyd gyda Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru * | Tach-21 | 7,762 |  |
| % y gwastraff dinesig a gaiff ei ailddefnyddio/ailgylchu/ gompostio | 2020-21 | 55.8 % |  |

* Mae dirywiad diweddar yn adlewyrchu newidiadau i'r ardaloedd rhybuddio eu hunain. Wrth i fodelu mwy cywir ddod ar gael, mae rhai eiddo yn symud allan o'r ardal 'mewn perygl'.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2018-22

**Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd**

**Y newid yn yr hinsawdd yw her fyd-eang bennaf ein cenhedlaeth.** Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cynnydd yn lefel y môr, perygl llifogydd, tywydd eithafol, cyflenwadau ynni anghynaliadwy ac, yn y pen draw, ansefydlogrwydd economaidd eang, yn rhoi degau o filiynau o bobl, a'u swyddi, mewn perygl uniongyrchol ledled y byd. Mae'r materion hyn eisoes yn effeithio ar ardal Caerdydd a'i phoblogaeth.

**Yn 2020, sefydlodd y BGC Fwrdd Argyfwng Hinsawdd,** gan ddod â phartneriaid lleol o'r sector cyhoeddus at ei gilydd, yn ogystal â phrifysgolion a chwmnïau cyfleustodau'r ddinas, i gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned newydd Cyngor Caerdydd. Roedd y Cynllun Strategaeth a Gweithredu, a gyhoeddwyd y llynedd, yn nodi sut y bydd y ddinas yn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd ac yn dod yn ddinas garbon niwtral erbyn 2030.

Mae partneriaid y BGC eisoes wedi cydweithio i adolygu asedau presennol (adeiladau a thir) i leihau ôl troed carbon y ddinas. Wrth symud ymlaen, mae pedwar maes gwaith allweddol wedi cael eu nodi gan y Bwrdd, lle mae'n cael ei ystyried yn fuddiol i gyflwyno camau cydweithredol, cydlynol, sef:

- Datgarboneiddio fflyd a rhannu seilwaith gwefru Cerbydau Trydan
- Seilwaith gwyrdd, gan gynnwys gwell plannu coed a rheoli bioamrywiaeth ar draws ystadau.
- Polisi caffael i ysgogi elfennau carbon uchel ar wariant gwasanaethau cyhoeddus, a
- Newid ymddygiad a cheisio ffyrdd cyson o ymgorffori meddylfryd ymatebol o ran yr hinsawdd ar draws sefydliadau.

Sefydlwyd grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer pob un o'r themâu hyn a rhoddwyd tasg i bob un ddatblygu cylch gorchwyl a rhaglenni gwaith ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

**Ymateb Dinas Gyfan i Lygredd Aer**

Mae costau cymdeithasol enfawr i ansawdd aer gwael oherwydd ei effeithiau niweidiol ar iechyd, bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Yn 2019, bu'r BGC yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Aer Glân y Cyngor, gan dargedu gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol yng nghanol y ddinas a rhai o'r ardaloedd mwyaf llygredig ar draws Caerdydd.

Yn ystod 2021/22, roedd ffocws yn parhau i gael ei roi ar weithredu'r mesurau a nodir yn y Cynllun Aer Glân, gan gynnwys cyflwyno 36 o Fysus Trydan, ôl-osod 49 o fysus i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau allyriadau diweddaraf a chyflwyno cynllun prydles tacsi ar gyfer EV Taxis. Hefyd, gweithredwyd gosodiad dros dro o gynllun Stryd y Castell, gan gynnal ffordd feicio 2 ffordd tra'n caniatáu ailgyflwyno traffig cyffredinol, yn dilyn cau'r ffordd a wnaed mewn ymateb i'r pandemig. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi cynllun parhaol addas ar Stryd y Castell.

Roedd gwaith monitro ar Stryd y Castell yn dangos y llwyddwyd i gydymffurfio â'r gwerth terfyn NO2 yn 2021, gyda chyfartaledd blynyddol o 26 µg/m3 yn cael ei gofnodi. Yn ogystal, roedd gwaith monitro ansawdd aer a wnaed ar draws gweddill y ddinas yn 2021 yn dangos y cydymffurfiwyd yn llawn ag amcanion ansawdd aer NO2 - wedi'u mesur mewn 116 safle.

**Teithio Cynaliadwy**

Caerdydd sydd â'r nifer mwyaf o draffig cerbydau modur fesul awdurdod lleol yng Nghymru o hyd. Fodd bynnag, mae'r defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gydag ychydig dros 51 % o drigolion Caerdydd bellach yn teithio i'r gwaith trwy ddefnyddio cludiant cynaliadwy.

**Lansiodd y BGC ei Siarter Teithio Iach i Staff ym mis Ebrill 2019,** gan nodi nifer o ymrwymiadau er mwyn helpu i annog gweithwyr i newid i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a chyflwyno mwy o gerbydau trydan i fflyd y gweithlu.

Mae pob partner wedi gwneud cynnydd yn erbyn y targedau 3 blynedd, yn enwedig o ran gweithio ystwyth. Er mwyn cefnogi teithio llesol, mae 15 cilomedr o lwybrau beicio newydd naill ai wedi'u cwblhau neu'n cael eu creu ar hyn o bryd ar draws y ddinas. Yn ogystal, mae 122 o'r 127 o ysgolion Caerdydd naill ai wedi cynhyrchu neu yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol.

Er mwyn hyrwyddo a chefnogi teithio llesol ymhellach, mae Map Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl) yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd y Map yn edrych ymlaen dros y 15 mlynedd nesaf at rwydwaith o lwybrau cerdded a beicio a fydd yn helpu trigolion i deithio o amgylch y ddinas yn haws.



Amcan Llesiant 7


# Moderneiddio ac Integreiddio Ein Gwasanaethau

# Cyflwyniad

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn mynd drwy gyfnod o newid cyflym.

Mae gwasanaethau'n gorfod addasu mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth, disgwyliadau newidiol dinasyddion, canlyniadau tlodi a chyfyngiadau adnoddau sylweddol a pharhaus. Serch hynny, mae'r ymateb i Covid-19 wedi dangos yr hyn sy'n bosibl gyda lefelau digynsail o gydweithio a newid i'r defnydd o dechnoleg er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu.

Ni all unrhyw wasanaeth unigol ateb yr heriau y mae'n eu hwynebu ar ei ben ei hun. Mae angen dulliau newydd, integredig o ddarparu gwasanaeth, a nodweddir gan ysgogiad i ddadansoddi ac ail-lunio ffiniau sefydliadol, systemau a diwylliannau o amgylch anghenion y rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth a'r cymunedau lle maent yn byw.




# Mesur Cynnydd[1]:

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad ystyried y data diweddaraf | Caerdydd yn 2022 | Tueddiad |
|---|---|---|---|
| Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd? | 2020 | 72.7 % | dd/b |

DS: Newidiodd y cwestiwn o 'I ba raddau rydych chi'n cytuno bod ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn gyffredinol dda?' yn 2020.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2018-22

**Newid tuag at Ddarparu Gwasanaethau Digidol**

Cyn pandemig Covid-19, **roedd partneriaid y BGC wedi rhoi blaenoriaeth i fabwysiadu technoleg ddigidol newydd er mwyn gwella'r mynediad i wasanaethau,** rheoli galw cynyddol a rhyddhau arbedion ariannol, gyda buddsoddiad mewn seilwaith a sgiliau digidol.

Mae'r ymateb i Covid-19 wedi cynyddu pwysigrwydd yr agenda hon yn gyflym, gyda phartneriaid y BGC yn symud ar-lein i barhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau hanfodol.

Mae disgwyliadau dinasyddion a'u cynefindra â gwasanaethau 'digidol' wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig, gyda 'mabwysiadwyr newydd' o wasanaethau digidol, a ystyrid yn y gorffennol fel bod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein neu nad oeddent yn gallu gwneud hynny, gan fod eu dewis wedi gorfod newid trwy reidrwydd.

Gan ragweld y bydd y newid tuag at weithgareddau ar-lein a darparu gwasanaethau digidol yn parhau ar ôl y pandemig, mae buddsoddiad parhaus mewn technoleg wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol ar draws cynlluniau adfer ac adnewyddu'r ddinas.

Bydd hyn yn adeiladu ar y defnydd o gasglu, cyflwyno a dadansoddi data amser real, fel y dibynnir arno yn ymateb y ddinas i'r pandemig, a sicrhau ei fod wedi'i wreiddio ar draws y system gwasanaethau cyhoeddus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

**Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu**

Ers 2018, mae aelodau'r BGC wedi parhau i gefnogi ei gilydd gyda cgfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu.

**Yn 2021, bu'r BGC yn cefnogi trigolion i gymryd rhan yn y Cyfrifiad.** Oherwydd y pandemig, cynhaliwyd 'Cyfrifiad Digidol'. Er mwyn annog cyfranogiad, bu staff ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a grwpiau cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i estyn llaw i'r grwpiau mwyaf agored i niwed ac anodd eu cyrraedd. Bydd y data a gasglwyd gan arolwg Cyfrifiad 2021 yn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a datblygu gwasanaethau dros y 10 mlynedd nesaf.

**Ceisio Darparu Gwasanaethau a Gweithlu sy'n Gynrychioliadol o'r Ddinas a'i Chymunedau**

**Ym mis Gorffennaf 2020 sefydlwyd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol** gan Gyngor Caerdydd a ddaeth â phartneriaid sector cyhoeddus a chyflogwyr mawr ynghyd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y ddinas.

Daeth y Tasglu i ben ym mis Mawrth 2022 a chyhoeddodd ei adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion o ran cyflogaeth a gweithlu cynrychioladol – gan fod hyn wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth allweddol. Mae argymhellion yn y maes hwn yn cwmpasu argymhellion mewnol eu sylw ac argymhellion partneriaid i gefnogi'r gwaith o ddarparu mwy o gyfleoedd yn y farchnad lafur i'r rhai sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig.

Yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, bydd gwaith yn cael ei wneud i roi argymhellion y Tasglu ar waith a pharhau i adeiladu ar fentrau cydraddoldeb, gan sicrhau bod Caerdydd yn ddinas lle gall pawb ffynnu, ni waeth beth y bo'u cefndir.



# ATODIAD A – Cynnydd yn erbyn Ymrwymiadau

## 1. Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Gosod llais a phrofiad pobl ifanc wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd trwy fabwysiadu ymagwedd Hawliau Plant a **dod yn 'Ddinas sy'n Dda i Blant' UNICEF.** | **Ers 2018, gyda lansiad y Strategaeth sy'n Dda i Blant, mae partneriaid y BGC wedi bod yn gweithio tuag at greu Dinas sy'n Dda i Blant.** Mae gwaith diweddar wedi cynnwys cefnogi adferiad sy'n dda i blant yn sgil pandemig Covid-19, gan sicrhau bod uchelgeisiau sy'n dda i blant yn cael eu hystyried trwy gydol y gwaith o gyflawni a datblygu'r holl gynlluniau adfer ac adnewyddu. Roedd camau gweithredu yn 2021/22 yn cynnwys cyflwyno nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau ail-ymgysylltu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys 'Gwên o Haf' a 'Gaeaf Llawn Lles'. Mae'r RRSA (Dull Parchu Hawliau ar Gyfer Ysgolion) yn ffurfio elfen sylweddol o Nod Strategol 4 Caerdydd sy'n Dda i Blant, sydd â ffocws ar ddull sy'n seiliedig ar hawliau o ymdrin ag addysg, ac mae nifer yr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol i 80 o 127 o ysgolion.<br><br>Mae UNICEF UK wedi cydnabod agenda adfer Sy'n Dda i Blant y BGC, ac wedi argymell bod Caerdydd yn cyflwyno ei chais am statws Dinas sy'n Dda i Blant ffurfiol yn ddiweddarach eleni. |
| **Mabwysiadu dull** 'Ffocws ar y Teulu', gan sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cydlynu a bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir, yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, gan gynnwys:<br>• Datblygu Un Pwynt Mynediad Cymorth Cynnar<br>• Comisiynu rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf newydd<br>• Datblygu dull cydlynol o ymateb i'r 1000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn | Lansiwyd **Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd (CChDC)** ym mis Tachwedd 2019 ac mae bellach yn ffordd wedi'i gwreiddio o weithio yng Nghaerdydd, gan ddarparu un pwynt cyswllt ('Porth Teuluoedd') am wybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth i unrhyw berson proffesiynol, rhiant, plant neu ifanc yng Nghaerdydd lle nad oes unrhyw bryderon diogelu.<br><br>**Yn ystod 2021/22, deliodd y Porth Teuluoedd â dros 9,200** o ymholiadau, gyda'r rhan fwyaf o'r ymholiadau hyn gan deuluoedd eu hunain.<br><br>Mae'r model yn parhau i ddatblygu a chreu cysylltiadau ar draws gwahanol ffrydiau ariannu. Fel enghraifft o effaith y dull amlasiantaethol a chyfarwyddiaeth hwn, mae'r tîm wedi nodi gostyngiad yn nifer y Ffurflenni Cyfeirio Amlasiantaethol (FfCAA) a dderbyniwyd ar gyfer achosion sy'n agored i Helpu Teuluoedd a gostyngiad yn nifer yr Hysbysiadau Diogelu Cyhoeddus a dderbyniwyd o'i gymharu â ffigurau ar gyfer 2020/21. Er bod angen dadansoddiad ymhellach, mae arwydd bod ymyrraeth gynnar gan y tîm wedi lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ac ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.<br><br>Ers i raglen Teuluoedd yn Gyntaf gael ei chomisiynu yn 2018, mae hi wedi cefnogi 32,383 o fuddiolwyr yn gyffredinol. Mae canlyniadau ar gyfer elfennau cymorth, megis presenoldeb mewn ysgolion, wedi gostwng oherwydd y pandemig, er bod tystiolaeth yn tynnu sylw at y ffaith fod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi llwyddo i gynnal lefelau tebyg o ddarpariaeth gwasanaethau, er eu bod wedi'u darparu mewn ffyrdd gwahanol (ar-lein, dros y ffôn ac ati). |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| | Cafodd mentrau fel Gwên o Haf, Gaeaf Llawn Lles ac Addewid Caerdydd, yn ogystal ag agenda dinasoedd sy'n dda i blant, ragor o gymorth. Gyda lles plant a phobl ifanc yn faes angen allweddol a nodwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymorth ychwanegol wedi galluogi cynnig ystod ehangach o weithgareddau, gyda chyfranogiad blaenoriaeth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl. |
| Datblygu **dulliau sy'n seiliedig ar leoedd o integreiddio gwasanaethau cyhoeddus i blant a theuluoedd yng nghymunedau'r ddinas sydd â'r amddifadedd mwyaf** trwy'r cynllun peilot 'Plant yn Gyntaf' yn Nhrelái a Chaerau. | Cafodd cynllun peilot 'Plant yn Gyntaf' Caerdydd ei ymgorffori yn y gwaith o ddatblygu **model cyflawni newydd ar gyfer y gwasanaethau cyngor a chymorth i deuluoedd** (gweler yr ymrwymiad Ffocws ar y Teulu uchod). |
| Datblygu **dulliau arloesol o nodi'r rheiny sy'n agored i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP)**, gan roi ymateb amlasiantaethol ar waith i gefnogi plant a theuluoedd cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. | Mae ffocws o hyd ar gefnogi lles emosiynol plant a phobl ifanc. **Erbyn hyn mae dau Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl llawn amser yn Nhîm Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd (CChDC).**<br><br>Mae Sgyrsiau Meddwl Ar y Cyd (TTC) yn parhau i gael eu cynnal gydag Arbenigwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol, gan roi eglurder a chyfeiriad ynghylch ymyriadau priodol mewn perthynas ag iechyd emosiynol a meddyliol plentyn neu berson ifanc.<br><br>Mae tîm CChDC hefyd wedi gweithio gyda Heddlu De Cymru i sicrhau dau Swyddog Cymorth Cymunedol Polisi pwrpasol i weithio fel rhan o'r tîm. Nod y gwaith hwn yw dargyfeirio teuluoedd ag anghenion is yn uniongyrchol i'r Porth Teuluoedd, yn hytrach na thrwy'r Hwb Diogelu Amlasiantaethol (MASH). Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Cymorth Cynnar yn cefnogi Timau Plismona Cymdogaeth lleol i wneud atgyfeiriadau ac ymgysylltu â theuluoedd i ofyn am ganiatâd. |
| Gweithio gyda chymunedau a phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i **fynd i'r afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.** | Yn 2019, cyflwynodd Caerdydd **Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion gyfunol** dan arweiniad Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro.<br><br>O dan y strategaeth hon, mae model newydd SAFE (Diogelu Pobl Ifanc Rhag Camfanteisio) yn mynd ati'n rhagweithiol i ysgogi ymateb Gwasanaethau Plant Caerdydd a phartneriaid i gamfanteisio trwy gryfhau'r dulliau o gwblhau offer sgrinio er mwyn llywio cynlluniau rheoli risg a lleihau'r risg o gamfanteisio ymhlith plant yng Nghaerdydd. Mae dull amlasiantaethol cydweithredol hefyd yn cryfhau diogelu cyd-destunol i gefnogi risg o fewn y gymuned trwy gyfarfodydd rheoli risg. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
| --- | --- |
| Gwella iechyd meddwl a lles emosiynol pobl ifanc trwy weithredu **dull integredig o roi Cymorth Emosiynol ac Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc.** | **Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi lansio Un Pwynt Mynediad ar gyfer atgyfeirio a chymorth i wasanaethau iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion lles emosiynol ac iechyd meddwl.** Bydd hyn yn galluogi clinigwyr a staff ysgolion i gydweithio i benderfynu ar y cymorth mwyaf priodol i berson ifanc.<br><br>Lansiwyd Gwefan Lles Emosiynol Caerdydd a'r Fro ym mis Hydref 2021, gydag amrywiaeth o adnoddau, gwybodaeth a chyfeiriadau er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc, teuluoedd ac ymarferwyr. Mae'r adnoddau yn cynnwys fideos wedi'u hanimeiddio i esbonio'r cysyniad o les emosiynol ac iechyd meddwl a gafodd eu cynhyrchu ar y cyd â phobl ifanc.<br><br>Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cefnogi datblygu model gofal newydd i blant a phobl ifanc sy'n profi trallod emosiynol ac nad oes modd eu cefnogi yn eu cymuned/cartref. Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc mewn perygl uchel o niwed ac mae angen cymorth cofleidiol arnynt a dull amlasiantaethol sy'n seiliedig ar drawma i ddiwallu eu hanghenion. |
| Cefnogi pobl ifanc anabl a'u teuluoedd trwy ddarparu'r **rhaglen Dyfodol Anabledd.** | Lansiodd Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro eu **Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu** ym mis Mehefin 2019. Mae'r strategaeth yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau anabledd dysgu i oedolion ac mae'n cael ei **gyflawni drwy waith Bwrdd y Rhaglen Anabledd Dysgu Rhanbarthol.**<br><br>**Mae'r rhaglen Dyfodol Anabledd wedi'i therfynu.** Mae ei gwaith a oedd yn ymwneud ag oedolion ag anabledd dysgu bellach yn dod o dan gylch gwaith Bwrdd y Rhaglen Anabledd Dysgu Rhanbarthol. Mae gwaith sy'n ymwneud â chanlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc wedi'i drosglwyddo i'r Bartneriaeth Dechrau'n Dda ranbarthol a'i grwpiau cyflawni. |
| Sicrhau bod pobl ifanc yn barod ar gyfer y byd gwaith ac yn cael cyfleoedd i gael swydd ynddo drwy gyflawni 'Addewid Caerdydd' mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector. | Mae **'Addewid Caerdydd'** yn helpu i sicrhau bod hyfforddiant, cyflogaeth neu addysg bellach ar gael i bob plentyn wrth adael yr ysgol. Mae mwy na 360 o fusnesau wedi ymgysylltu hyd yma neu wedi gwneud addunedau penodol i gefnogi ysgolion a phobl ifanc.<br><br>Yn 2021/22, parhaodd Addewid Caerdydd i roi cyngor i bobl ifanc, ysgolion a busnesau, yn ogystal â chyfleoedd i bobl gysylltu, trwy wythnosau 'Agor Eich Llygaid' a Fforymau Busnes. Wrth symud ymlaen, bydd cydweithio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cynifer o opsiynau ôl-16 â phosibl ar gael i bobl ifanc tra bod y farchnad swyddi yn parhau i fod mor oriog yn sgil y pandemig. |

## 2. Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Adeiladu ar **wasanaethau Pwynt Cyswllt Cyntaf a'r Un Pwynt Mynediad,** datblygu ymhellach bwyntiau mynediad wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein hygyrch ar gyfer y rhanbarth, i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. | Yn 2020/21, parhaodd y tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf i gefnogi'r rhai mwyaf bregus, gan ddelio â **39,786** o galwadau, cynnal cyfradd ateb o 96 % a chefnogi 2,446 o gleifion.<br><br>Mae'r cymhwysiad AskSARA wedi'i gyflwyno'n ddiweddar. Mae AskSara yn borth hunangymorth sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ffyrdd o fyw gartref yn annibynnol – gan gynnwys adnoddau a chynhyrchion a all gyflawni'r nod hwn, yn ogystal â manylion am ble y gellir dod o hyd i'r rhain.<br><br>**Mae Peopletoo wedi bod yn ymgysylltu â chefnogi dull system gyfan o ddarparu gofal a alluogir gan dechnoleg,** gyda'r bwriad o alluogi rhagor o annibyniaeth a chadw pobl gartref am gyfnod hirach, yn ogystal ag ategu unrhyw gymorth personol y gallai fod ei angen hefyd. Mae'r dull hwn yn gydweithrediad rhwng cydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i rymuso staff i feddwl am ddefnyddio atebion technolegol wrth gwblhau asesiadau lles, mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth a'u rhwydwaith gofal.<br><br>**Mae gwasanaethau lles meddygon teulu wedi'u hehangu i gynnwys meddygfeydd Gogledd a De-ddwyrain Caerdydd.** Bydd hyn yn gwella'r dull ataliol ac yn sicrhau bod anghenion anfeddygol yn cael eu rheoli trwy wasanaethau cymunedol. |
| Datblygu cymunedau cryf â **gwasanaethau lleol, rhwydweithiau seilwaith a chymunedol cadarn** i ddiwallu anghenion lleol lle mae pobl hŷn yn byw. | **Ym mis Mawrth 2022, Caerdydd oedd yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i sicrhau aelodaeth o Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd sy'n Dda i Bobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).**<br><br>Datblygwyd fframwaith gwerthuso 'Cynllun Gweithredu Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn Caerdydd', ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid. Cynhelir gwerthusiad cyffredinol blynyddol, yn ogystal ag adroddiadau cynnydd chwarterol, yn y flwyddyn newydd. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd mewn perthynas â gwefan Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn gyda phob randdeiliad a pherson hŷn.<br><br>Yn ogystal, mae'r datganiad cynnydd dros dro ar gyfer strategaeth toiledau lleol Caerdydd wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae bellach ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cyngor Caerdydd.<br><br>**Ers lansio Gwasanaeth Cefnogi Lles Caerdydd yn 2021, mae 192 o ddinasyddion wedi derbyn mynediad i fentora un-i-un i wella eu lles.** Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth eang o opsiynau cymorth sy'n ceisio mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol, gan gynnwys cefnogi pobl i fod yn weithredol yn eu cymuned mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw, p'un a ydynt wedi cael eu hynysu yn eu cymuned neu'n newydd i ardal. Mae mentoriaid yn gweithio ar gael gwared ar rwystrau a chynyddu hyder fel y gall defnyddwyr barhau i reoli eu lles eu hunain unwaith y bydd cymorth un-i-un yn dod i ben.<br><br>Mae mentoriaid hefyd wedi cynnal 'rhagnodi cyngor' o amgylch tai, arian, dyled, cyflogaeth, iechyd, caethiwed i gyffuriau, materion teuluol ac iechyd meddwl mewn dull cydweithredol gyda phartneriaid arbenigol. Mae adborth gwerthuso yn dangos bod 95 % o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar y cymorth a gafwyd. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| | **Mae 'Ailddychmygu Heneiddio i'r Dyfodol', adroddiad blynyddol 2019 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (a gyhoeddwyd yn 2020), yn nodi lle mae angen i'r bartneriaeth roi ei sylw er mwyn sicrhau bod pobl yn byw bywydau hapus ac iach yn eu henaint.** Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae clinig atal cwympo Staying Steady wedi cael ei sefydlu gan y Bwrdd Iechyd er mwyn darparu gwasanaeth i bobl hŷn sydd mewn perygl o gwympo. Mae'n wasanaeth ymyrraeth gynnar sy'n cael ei gynnal gan ffisiotherapyddion ac sy'n gweithredu ar ffurf 'rithwir' ac wyneb yn wyneb (unwaith y mis). Yn 2021/22, ymdriniodd y gwasanaeth â 180 o bobl.<br><br>Mae amrywiaeth o raglenni ymarfer corff hefyd yn cael eu cynnal, gyda'r nod o leihau risgiau cwympo i bobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sy'n cael eu cynnal gan Elderfit, sy'n darparu dosbarthiadau cryfder a chydbwysedd bob wythnos. Yn 2021/22, roedd tua 300 o bobl yn mynychu rhaglenni Elderfit bob wythnos ar draws 25 dosbarth yng Nghaerdydd. Yn ogystal, mae dosbarth 'Cadwch i Symud' newydd wedi'i sefydlu yn Hwb Grangetown, sy'n canolbwyntio ar aelodau hŷn o gymunedau lleiafrifol ethnig yn yr ardal leol.<br><br>Mae cysylltiadau cymdeithasol yn cael eu cefnogi ymhellach ar draws Caerdydd, yn enwedig i grwpiau o bobl hŷn o leiafrifoedd ethnig, trwy benodi - yn 2021/22 - Cydlynydd Ymgysylltu (ar gyfer Iechyd/Lleiafrifoedd Ethnig). Mae gweithgarwch pontio'r cenedlaethau yn cael ei gynnal trwy brosiectau megis 'Ysgolion Staying Steady', lle mae plant yn dysgu am sut i siarad â pherthnasau hŷn am leihau eu risg o gwympo. |
| Datblygu a chynnig amrywiaeth o ddewisiadau llety yn y dyfodol i ateb y galw a **galluogi pobl i aros gartref**. | **Mae amrywiaeth o gynlluniau byw cymunedol newydd ar draws y ddinas wedi'i ddatblygu:**<br><br>• Ymrwymwyd i gontractau adeiladu yn barod ar gyfer cyflwyno Maelfa a Llaneirwg, gyda'r ddau gynllun i fod i gael eu cwblhau ddechrau 2024.<br>• Mae cynlluniau Stryd Bute a Glan-yr-afon wedi cael caniatâd cynllunio ac ar hyn o bryd maent wedi'u gosod ar dendr ar gyfer y cyfnod adeiladu.<br>• Mae disgwyl i gynllun Moorland Road gael ei gyflwyno i gael caniatâd cynllunio dros y misoedd nesaf.<br>• Mae cynllun yn Worcester Court wedi cael ei ddylunio a bydd ymgynghoriad â'r trigolion yn dechrau'n fuan, gyda'r nod o ddechrau'r gwaith ar y safle yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Mae gwaith yn Broadlands House yn parhau. Mae gwaith allanol bron â'i gwblhau, gyda gwaith mewnol yn mynd rhagddo'n dda a bydd yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Yn Heathmead, mae gwaith i'r ystafell gymunedol wedi'i gwblhau. Mae disgwyl i system galw warden Appello gael ei gosod dros y misoedd nesaf. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Datblygu arferion asesu, diagnosio a chynllunio gofal gwell, yr adeiledir arnynt trwy gydweithrediad gwirioneddol â phobl hŷn a'u gofalwyr a'u teuluoedd, fel bod eu cynllun yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac yn cyflawni'r canlyniadau maen nhw'n eu ceisio. | Mae Un Pwynt Mynediad ar gyfer Rhyddhau wedi cyflwyno dull brysbennu amlddisgyblaethol ar gyfer rhyddhau cleifion yn ddiogel, y gallai fod angen peth cymorth neu ofal arnynt i ddychwelyd adref.<br><br>Mae gwaith yn cael ei wneud nawr i ddatblygu ymhellach y cydweithio rhwng y Tîm Un Pwynt Mynediad a'r Tîm Ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf (y Fyddin Binc).<br><br>Datblygwyd canolfan rhyddhau integredig, gyda chymorth Therapi Galwedigaethol Cymunedol i'r ysbyty, gan ddarparu gweithdrefn asesu a brysbennu integredig. Mae hyn wedi newid yn gadarnhaol rai o'r llwybrau rhyddhau gwreiddiol i gleifion, gan sicrhau bod rhwydwaith teulu a gofal yr unigolyn yn rhan o'r penderfyniadau i gefnogi rhyddhau cleifion yn ddiogel. |
| **Gwneud Caerdydd yn ddinas sy'n deall dementia** | Mae grŵp llywio Caerdydd sy'n Deall Dementia yn cwrdd bob mis ac mae Cymdeithas Alzheimer, y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a Marie Curie yn ei fynychu. Ar hyn o bryd, mae disgwyl i'r staff fynychu hyfforddiant gwrando fel rhan o'r gwaith ynglŷn â 'Llwybr Safonau Dementia Cymru Gyfan.'<br><br>**Mae Caerdydd sy'n Deall Dementia wedi parhau i hyrwyddo Read About Me** - y pecyn cymorth sy'n seiliedig ar gleifion sy'n cynorthwyo pobl â dementia neu nam gwybyddol sy'n derbyn gofal meddygol. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar wefan Deall Dementia ac mae bellach ar gael i'w argraffu am ddim yn Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd a'r Fro.<br><br>**Mae gwefan Caerdydd sy'n Deall Dementia wedi parhau i ddatblygu fel gwefan hygyrch sydd wedi'i dylunio i ddarparu gwybodaeth, cymorth ac adnoddau i bobl yn y ddinas y mae dementia'n effeithio arnynt.** Mae'r wefan yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu gwybodaeth leol am gymorth a digwyddiadau yng Nghaerdydd.<br><br>Bydd prosiect Gwirfoddolwyr Deall Dementia yn lansio yn y flwyddyn newydd a bydd yn canolbwyntio ar ddull lleol o ddatblygu busnesau sy'n deall dementia, gan weithio gyda Chymdeithas Alzheimer a'r cynllun addewidion sydd wedi'i ail-lansio. |

.

## 3. Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Ceisio darparu mwy o swyddi â thâl gwell yng Nghaerdydd drwy weithredu fel **eiriolwr ar gyfer y fenter Cyflog Byw Gwirioneddol** ar draws cyflogwyr y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac ystyried hyn wrth gomisiynu ac ariannu. | **Ym mis Tachwedd 2019, cydnabuwyd Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw.** Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r BGC yn talu'r cyflog byw neu'n gwneud cais i gael eu hachredu **ac mae nifer sylweddol o fusnesau wedi dilyn arweiniad y BGC.** Yn 2021, **Heddlu De Cymru oedd aelod diweddaraf y BGC i gael ei achredu.**<br><br>Erbyn hyn mae 164 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd, gyda 41 yn cael eu hachredu yn ystod 2021/22, sef y mwyaf erioed. Mae tua 64,500 o bobl bellach yn gweithio i gyflogwr Cyflog Byw achrededig, gyda bron 8,000 o'r gweithwyr hyn yn derbyn codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Ers 2012, amcangyfrifir bod £39m ychwanegol wedi mynd i economi Caerdydd. |
| **Cefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio'n negyddol gan ddiwygiadau lles** drwy weithredu dull integredig yn lleol mewn Hybiau Cymunedol a Llesiant. | Mae holl staff rheng flaen yr Hybiau Cymunedol a Llesiant wedi eu hyfforddi i nodi pryd bydd angen i deuluoedd hawlio Credyd Cynhwysol. Mae **arweiniad, cyngor a chymorth wedi'u teilwra** ar gael yn yr holl Hybiau a lleoliadau allgymorth ledled y ddinas. Er mwyn cynyddu pa mor hygyrch yw'r cymorth sydd ar gael, darperir gwasanaeth cymorth digidol hefyd. |
| Datblygu **dull integredig o ymdrin â gwasanaethau cyflogaeth yng Nghaerdydd,** gan helpu pobl i ddod o hyd i waith, aros mewn gwaith a symud ymlaen yn y gwaith, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a darparwyr hyfforddiant. | **Mae Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd** wedi dod â tua 40 o wasanaethau cyflogaeth ynghyd mewn un lle er mwyn helpu i gefnogi pobl i gael a chadw swydd dda, gan gefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt gan Ddiwygiadau Lles a chyflwyno'r Credyd Cynhwysol ar yr un pryd.<br><br>Trwy gydol 2021/22, bu'r Gwasanaeth yn cefnogi dros 250 o gyflogwyr gyda'u hanghenion recriwtio, gan sicrhau bod unigolion a oedd yn mynd ati i chwilio am waith yn gallu achub ar gyfleoedd gwaith. Cynhaliodd y Gwasanaeth sawl ffair swyddi lleol ar draws y ddinas, mewn partneriaeth â'r AGPh a Llywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi pobl yng Nghaerdydd i ddod o hyd i waith. Yn ogystal, lansiodd Cyngor Caerdydd Academi Adeiladu Ar y Safle, mewn partneriaeth â CITB, i gefnogi rhanbarth De-ddwyrain Cymru gyda recriwtio a hyfforddiant yn y sector adeiladu.<br><br>At ei gilydd, rhoddwyd dros 60,000 o achosion o gyngor i bobl oedd yn awyddus i ddod o hyd i waith, aros mewn gwaith neu ddatblygu yn y gwaith. Cafodd 1,247 o unigolion eu cefnogi i gael gwaith yn dilyn cymorth gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith. |
| Sicrhau bod **rhaglenni atal tlodi** blaenllaw Llywodraeth Cymru (Cynlluniau Gadael Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl) wedi'u dylunio a'u **cyflwyno mewn ffordd gydlynol.** | Mae'r Cyngor wedi parhau i ddefnyddio'r **Rhaglen Ariannu Hyblyg Llywodraeth Cymru** yn arloesol i sefydlu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion sy'n dod i'r amlwg i drigolion sy'n wynebu anawsterau.<br><br>Mae'r Grant Plant a Chymunedau, yn ogystal â'r Grant Cymorth Tai, yn cael eu rheoli'n ganolog ac nid ydynt yn cael eu hystyried ar wahân. Mae trawsnewid ac integreiddio darpariaeth gwasanaethau wedi bod yn seiliedig ar flaenoriaethau'r ddinas, gan nodi'r mater, ac yna datblygu'r gwasanaeth fel ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn hytrach nag o amgylch y ffrwd ariannu yn unig. Mae hyn wedi arwain at wasanaethau a ddatblygwyd ac a gomisiynwyd ar y cyd mewn ymateb i flaenoriaethau anghenion y Ddinas a'r defnyddwyr gwasanaeth. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| | Defnyddiwyd cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn greadigol i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau, yn ogystal â mynd i'r afael â rhestrau aros cynyddol a materion sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff oherwydd effaith Covid. |
| Ceisio **atal cysgu ar y stryd** yn y ddinas a **mynd i'r afael ag achosion digartrefedd.** | **Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gefnogi pobl i adael strydoedd y ddinas. O 87 yn 2018, mae niferoedd y rhai sy'n cysgu ar y stryd bellach yn yr 20au.** Gan adeiladu ar ymateb y bartneriaeth i'r pandemig, a oedd yn addasu gwestai a hosteli i alluogi'r rhai mwyaf agored i hunanynysu a chael mynediad uniongyrchol i gymorth amlasiantaethol ar gyfer materion cymhleth, datblygwyd dull newydd o fynd i'r afael â digartrefedd o'r enw 'Dim Mynd Nôl'.<br><br>Mae 'Dim Mynd Nôl' wedi cynnwys symud o'r model 'grisiau' safonol sy'n ymwneud â hosteli a llety â chymorth i un asesiad o anghenion, atgyfeirio uniongyrchol i ddarpariaeth ailgartrefu a chymorth cofleidiol amlasiantaethol i helpu unigolion i fyw'n annibynnol. Yn 2021/22, cafodd nifer o gynlluniau eu cwblhau a'u datblygu i ddarparu llety â chymorth ar y safle, gyda Cham 1 cynllun cymorth pobl sengl Adams Court wedi'i gwblhau a Chanolfan Digartrefedd i Deuluoedd yn agor yn Briardene yng Ngabalfa. |
| Ceisio cynyddu effaith gwasanaethau cyhoeddus fel cyflogwyr angori i **drechu tlodi trwy addasu polisïau cyflogaeth** ac ystyried dulliau ar draws gwasanaeth cyhoeddus o ran polisïau 'Cyfrifoldeb Cymdeithasol' a 'Buddion Cymunedol.' | Mae **Datganiad Caethwasiaeth Fodern** Cyngor Caerdydd yn nodi ymrwymiad y sefydliad i sicrhau nad oes gan gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl le mewn cadwyni busnes a chyflenwi. Erbyn hyn mae dros 3,750 o staff wedi cwblhau hyfforddiant caethwasiaeth fodern. Yn ogystal, mae hyfforddiant amlasiantaethol wedi'i gyflwyno i gefnogi gweithwyr i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol. Mae'r rhaglenni hyfforddi hyn wedi effeithio ar nifer y dioddefwyr posib o fasnachu yr adroddwyd amdanynt yng Nghaerdydd - gan gynyddu o 10 yn 2019 i 67 yn 2021. Mae hyn er gwaethaf llai o gyswllt â dioddefwyr posib oherwydd Covid.<br><br>Mae gwaith hefyd yn parhau i gynyddu'r **buddion cymunedol** sy'n dod trwy wariant caffael gwerth £560m y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ThCM (Themâu, Canlyniadau, Mesurau) Cymru sydd, yn y bôn, yn amrywiaeth o fuddion cymunedol y mae pob un â gwerth ariannol dirprwyol ynghlwm wrtho. Mae'r ThCM wedi'u cynnwys mewn tendrau ac ymatebion tendrau a werthusir. Ar ôl dull peilot yn 2021, bydd y dull gweithredu nawr yn cael ei gyflwyno'n ehangach mewn tendrau sy'n fwy na £250,000. |
| Cefnogi **Partneriaeth Bwyd ledled y ddinas** i sicrhau y gall dinasyddion gael gafael ar fwyd cynaliadwy, iach a fforddiadwy | Mae Swyddog Bwyd bellach yn ei swydd i gefnogi'r gwaith o weithredu 'Strategaeth Fwyd' y ddinas a chyfrannu at ddarparu cynllun 'Symud Mwy, Bwyta'n Iach' Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i chwarae rhan weithredol ym mhartneriaeth Bwyd Caerdydd, a enillodd statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Arian yn 2021, ac sydd bellach yn gweithio tuag at statws Aur erbyn 2024. I gefnogi 'Caerdydd Un Blaned', mae ffocws y gwaith bwyd yn cynnwys rhoi cyfle i bawb gael gafael ar fwyd iach, carbon isel. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Cynnal ymchwil ychwanegol i sut i **fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd** yn y ffordd orau a lleihau'r bwlch o ran disgwyliad oes iach. | Mae sefydliadau partner, gan gynnwys y Cyngor a Bwrdd Iechyd y Brifysgol, **wedi cytuno i ddull system gyfan o 'gynyddu atal',** fel y nodwyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (2020), gyda sylw penodol ar imiwneiddio plant, sgrinio a chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach y gallai'r ffordd fwyaf lwyddiannus o'i gyflwyno fod ar sail ranbarthol.<br><br>Bydd Bwrdd Cyflawni'n cael ei ffurfio i lywio agweddau strategol a gweithredol y dull hwn. Bydd y ffocws ar gyflawni ymarferol fel partneriaeth a, thrwy ddysgu o brofiad yr ymateb i'r pandemig, gosodir targedau clir, penodol â therfyn amser ar gyfer pob pwnc. |
| Gweithio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno **Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Caerdydd** i gynyddu cyfranogiad cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn enwedig yng nghymunedau mwyaf difreintiedig ein dinas. | **Ym Mehefin 2022, lansiwyd Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Symud Mwy Caerdydd yn swyddogol.** Mae strwythur llywodraethu ar waith i gyflwyno cynnydd, sy'n cynnwys:<br><br>• Grŵp Arweinyddiaeth, sy'n darparu trosolwg a mewnbwn strategol.<br><br>• Grŵp Ymchwil a Gwerthuso, sy'n gweithio i sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso sy'n sail i bob datblygiad yn y dyfodol.<br><br>Mae tri grŵp gweithredu hefyd ar waith, sy'n ymwneud â'r meysydd thematig o fewn y Strategaeth: Amgylcheddau Actif, Pobl Actif a Chymdeithasau Actif.<br><br>Mae dull systemau cyfan wedi uno rhanddeiliaid o bob sector i yrru'r strategaeth yn ei blaen. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei weithredu ar hyn o bryd mewn dwy ardal beilot. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgu'n cael ei gipio, er mwyn ehangu dull sy'n seiliedig ar leoedd ledled y ddinas yn y pen draw a chefnogi nod Caerdydd i fod yn un o'r dinasoedd mwyaf corfforol actif yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae gwaith hefyd ar y gweill i sefydlu cipio a dadansoddi data i sicrhau y gellir dangos effaith y strategaeth yn y tymor hwy. |

## 4. Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Buddsoddi mewn **cymunedau a'u** cynnwys yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector lleol, integredig mewn hybiau Cymunedol a Lles. | **Mae buddsoddiad mewn hybiau iechyd a lles cymunedol yn parhau i gael ei gyflwyno ledled y ddinas** fel rhan o strategaeth Siapio Lles ein Dyfodol Bwrdd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'i weledigaeth i ddarparu mwy o gyfleusterau gofal iechyd yn nes at gartrefi pobl. Mae trawsnewid yr hen Gapel yn yr Ysbyty yn gyfleuster iechyd a lles yn ategu'r gwaith parhaus, graddol i ailddatblygu'r ysbyty'n Ganolfan Iechyd a Lles sy'n gwasanaethu de a dwyrain Caerdydd. Disgwylir i'r gwaith o adeiladu'r Hyb Lles newydd ym Maelfa, sy'n ffinio â Hyb Powerhouse, gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd y Brifysgol, sydd â phartneriaid yn y trydydd sector (Action in Caerau and Ely), hefyd yn y camau cychwynnol o ddatblygu Hyb Lles newydd a gaiff ei gydleoli â Hyb Trelái a Chaerau. |
| Rhoi llais gwell i bobl o ran llunio gwasanaethau cyhoeddus trwy ddatblygu a chyflawni **Cynllun/iau Cynnwys y Gymuned sy'n cael eu creu ar y cyd.** | Mae Grŵp Datrys Problemau newydd ei sefydlu gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu dulliau penodol o ymdrin â materion diogelwch cymunedol y mae angen ymateb partneriaeth arnynt. **Mae dros 30 o sefydliadau wedi dod at ei gilydd i ddatrys problemau'n gyflym, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynnau tân a throseddau chwilfrydig.** Yn benodol, mae cais llwyddiannus Caerdydd i'r Swyddfa Gartref am £432,000 o gyllid Strydoedd Saffach wedi cael effaith uniongyrchol ar lefelau troseddu ac adrodd am droseddau gan drigolion lleol yn yr ardaloedd sy'n elwa o'r buddsoddiad. |
| **Hyrwyddo gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol,** gan gynnwys datblygu porth gwirfoddoli ar gyfer y ddinas. | Mae **Gwirfoddoli Caerdydd (www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk), wedi dod yn borth ar gyfer gweithgarwch dinesig,** gan gyfeirio trigolion Caerdydd at yr holl gyfleoedd, sefydliadau a chymorth sydd ar gael i alluogi gwirfoddoli ar draws y ddinas.<br><br>Yn ystod y pandemig, bu'r porth yn cynnal y fenter 'Gyda'n Gilydd dros Gaerdydd'. Fe wnaeth 1,000 o wirfoddolwyr helpu'r rhai mwyaf agored i niwed i gael gafael ar fwyd a nwyddau meddygol yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Parhaodd bron 500 i gefnogi banciau bwyd ac ymunodd 23 o wirfoddolwyr â chynllun cyfeillio newydd a gafodd ei ariannu gan Age UK, a oedd yn rhoi cymorth i'r rhai oedd yn teimlo'n unig neu'n ynysig yn ystod y pandemig.<br><br>Er mwyn adeiladu ar y lefel hon o wirfoddoli, mae partneriaid yn y sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gyd-gynhyrchu Strategaeth Menter Wirfoddol, Gymunedol a Chymdeithasol (MWGCh) newydd. Nod y Strategaeth yw cryfhau rôl y sector MWGCh wrth ddarparu atebion i heriau'r Ddinas a chefnogi gwaith partneriaeth yn y dyfodol. |
| **Amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed,** gan fabwysiadu dulliau integredig o ymdrin â masnachu pobl, camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin domestig. | Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu **Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion ar y cyd** i adlewyrchu themâu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg o ran camfanteisio ar blant ac oedolion megis caethwasiaeth fodern.Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i atgyfnerthu dull gweithredu'r Cyngor a phartneriaid o ran diogelu cyd-destunol, gan gydnabod y gall y gwahanol berthnasoedd y mae pobl ifanc yn eu meithrin yn eu cymdogaethau, eu hysgolion ac ar-lein y tu allan i'r uned deuluol gynnwys trais a cham-drin. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| | Mae Bwrdd Dinas sy'n Dda i Blant wedi cael ei sefydlu i ddatblygu adferiad sy'n dda i blant Caerdydd yn dilyn y pandemig. Un o'r prif flaenoriaethau yw datblygu strategaeth diogelu cyd-destunol gadarn i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau trais ieuenctid a chamfanteisio ar bobl ifanc. Mabwysiadwyd y model SAFE (Diogelu Oedolion Rhag Camfanteisio) i ymateb yn rhagweithiol i gamfanteisio trwy gwblhau offer sgrinio a dull amlasiantaethol o ddiogelu a rheoli risg cyd-destunol. |
| **Mynd i'r afael â radicaleiddio yn ein cymunedau** trwy sicrhau cydlyniad a datblygu ymddiriedaeth a hyrwyddo amgylchedd lle mae gan bobl yr hyder i roi gwybod am ymddygiad eithafol. | Datblygwyd **Cynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol,** gan gynnwys gweithio gyda'n partneriaid i fonitro tensiynau cymunedol, meithrin gwydnwch yn wyneb eithafiaeth atgas a chynnig cymorth i dystion a dioddefwyr troseddau casineb.<br><br>Mae'r tîm Prevent yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu prosiectau lleol trwy hyfforddiant **'Hyrwyddwyr Prevent' a gweithdai** 'Diogelwch ac Arweinyddiaeth' i rymuso cymunedau, cynrychiolwyr o sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol. Ers Mehefin 2021, mae 12 sefydliad trydydd sector wedi cwblhau hyfforddiant Hyrwyddwyr Atal ac mae 4 sefydliad wedi mynd ymlaen i wneud cais llwyddiannus am arian i gyflawni prosiectau lleol yn 2022/23. |
| **Lleihau troseddu a gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer y grŵp 18-25 oed** drwy ddatblygu dull integredig, lleol o reoli troseddwyr. | Ers **lansio'r Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid newydd - 'Ein Dyfodol Ni i Gyd'** ym mis Mehefin 2020, gwnaed cynnydd sylweddol o ran cryfhau llywodraethiant strategol a defnyddio gwybodaeth am bartneriaethau i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau.<br><br>Mae'r broses o roi Cynllun Gwella Cyfiawnder Ieuenctid Ein Dyfodol Ni i Gyd yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r rhan fwyaf o gamau yn y cynllun wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2021-22. Mae'r meysydd cynnydd allweddol yn cynnwys casglu adborth gan ddioddefwyr ar gylch 6 mis i fwydo i'r broses o wneud penderfyniadau, adolygu a diweddaru sawl polisi gwasanaeth, a phenodi rheolwyr newydd yn y gwasanaeth.<br><br>Ers yr archwiliad yn 2020, mae adborth anffurfiol gan HMIP yn gadarnhaol, ac yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. |
| Lleihau lefelau defnyddio cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau, a lefelau aildroseddu, trwy ddarparu **gwasanaeth camddefnyddio sylweddau wedi'i gomisiynu ar y cyd.** | **Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro wedi parhau i fwrw ymlaen ag ail-gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau,** a ddechreuodd gydag asesiad o anghenion camddefnyddio sylweddau yn 2018 ond a gafodd ei oedi oherwydd pandemig Covid-19. Y nod yw cysoni systemau cymorth a thriniaeth trwy gomisiynu ar gyfer Canlyniadau a Chontract Cynghrair. Bydd y Gynghrair yn gyfrifol am drawsnewid y ffordd y caiff Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau eu darparu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, ac ymgorffori'r newidiadau hyn ar draws y system gyfan. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| | **Cafodd Asesiad Anghenion Iechyd o bobl sy'n chwistrellu'n gyhoeddus ei gynnal gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ym mis Tachwedd 2020.** Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r canfyddiadau, sefydlwyd naw argymhelliad i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a chymdeithasol penodol y rhai sy'n chwistrellu'n gyhoeddus. Mae'r argymhellion yn cynnwys nodau lefel weithredol a strategol, gyda mwy o ffocws ar gwaith partneriaeth ac ar draws y system. Er mwyn symud ymlaen i weithredu'r argymhellion, mae cynllun cyflenwi wedi'i greu gyda pherchnogion gwrthrychol a nodwyd i sicrhau bod pob argymhelliad yn cael ei gario ymlaen. |
| Sicrhau bod **newydd-ddyfodiaid i'r DG o dramor yn cael eu croesawu ac yn gallu adeiladu bywydau newydd yng Nghaerdydd,** gan gynnwys cyflawni'r prosiect 'Dinasoedd Cynhwysol'. | Yn 2021/22, **cyflwynodd y Cyngor a'i bartneriaid raglen o gymorth croesawu i'r rhai a gafodd eu symud o Affganistan yn haf 2021.** Datblygwyd Cynllun Gweithredu Cam 2 ar gyfer y rhwydwaith Dinasoedd Cynhwysol, sy'n cynnwys cymryd rhan mewn prosiect ymchwil dysgu gweithredu sy'n canolbwyntio ar gynnwys mudwyr â statws mewnfudo ansicr. Fel rhan o'r gwaith hwn, datblygwyd dull cynhwysfawr o gefnogi mudwyr nad oes modd ganddynt gael arian cyhoeddus, er mwyn sicrhau mynediad i lety fel rhan o fodel tai 'Everybody In', yn ogystal â llwybrau cyfeirio ar gyfer cyngor cyfreithiol arbenigol, mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol. |
| Sicrhau **economi nos ddiogel a bywiog,** gan weithio mewn partneriaeth â'r Ardal Gwella Busnes. | **Ers 2018, mae Caerdydd wedi ennill Statws Baner Borffor i gydnabod ansawdd, diogelwch ac amrywiaeth ei heconomi'r nos.** Yn 2022, mae wedi cadw'r achrediad hwn gyda chyflawniad eithriadol wedi'i amlygu mewn perthynas â chryfder y bartneriaeth, arweinyddiaeth yr adferiad yn sgil y pandemig, y Ganolfan Trin Alcohol, y dadansoddiad data a ddeilliodd o Fodel Caerdydd a'r ymateb i fynd i'r afael â chysgu ar y stryd mewn pebyll a amlygwyd yn yr asesiad cyntaf. |

## 5. Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
| --- | --- |
| Cryfhau rôl Caerdydd fel prifddinas economaidd a diwylliannol Cymru, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Brifddinas-ranbarth, a sicrhau bod y Fargen Ddinesig a Metro Caerdydd yn cyflawni ar gyfer pobl Caerdydd a Chymru. | Mae economi Caerdydd o bwysigrwydd rhanbarthol a chenedlaethol. Er mwyn parhau i gyflawni ar ran pobl Cymru, ymateb i heriau'r pandemig a chynyddu cynhyrchiant, **mae ffocws** ar ddarparu mwy o swyddi gwell yn cael eu cynnal.<br><br>Cafodd strategaeth adfer ac adnewyddu y ddinas, 'Gwyrddach, Tecach, Cryfach,' yn ogystal â Strategaeth a Chynllun Gweithredu Adfer Canol y Ddinas, eu cymeradwyo a'u cyhoeddi ar ôl cael eu llywio gan sesiynau ymgysylltu adeiladol dros yr haf. Mae cynnydd cryf eisoes wedi'i wneud, gyda nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) i ddatblygu prosiectau Caerdydd, yn ogystal â chefnogi prosiectau'r ddinas-ranbarth ehangach. Wrth symud ymlaen, bydd swyddogaethau presennol Bargen Ddinesig P-RC yn cael eu trosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforaethol newydd De-ddwyrain Cymru. |
| Ceisio sicrhau bod gan Gaerdydd yr arian a'r pwerau cyllidol sydd eu hangen arni i arwain economi Cymru a darparu seilwaith prifddinas a gwasanaethau ar ran pobl Caerdydd, y Brifddinas-ranbarth a Chymru. | Mae Caerdydd wedi ymateb i nifer o alwadau o'r agenda **Codi'r Gwastad.** Mae hyn yn cynnwys 17 o brosiectau, sy'n werth bron £1m i gyd, trwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol.  Cafodd un prosiect ei gyflwyno i rownd gyntaf Cronfa Codi'r Gwastad (Marchnad Caerdydd) na lwyddodd i gael cymorth. Fodd bynnag, mae nifer o brosiectau wedi bod yn cael eu datblygu ers hynny ar gyfer rownd 2 y cylch ariannu, sef y cyswllt metro rhwng canol y ddinas a'r bae a chymorth i ddatblygiad ategol o amgylch yr arena newydd.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynigion ar gyfer **cynlluniau cadw cyfraddau** ar gyfer y rhanbarth. Mae gweithgor bellach wedi'i sefydlu a fydd yn archwilio cynigion i'w gweithredu ar sail math o fodel Cyllid Cynyddiadau Treth. |
| Deall effaith Brexit ar economi, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Caerdydd a datblygu ymateb y ddinas, gan gynnwys fformat unrhyw raglenni olynol ar gyfer ffrydiau cyllid Ewropeaidd yng Nghymru. | Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud – ac wrthi'n cael ei wneud – i baratoi ar gyfer effeithiau Pontio o'r UE ar draws y ddinas ac ymateb iddynt.<br><br>Ynghyd â Covid-19, bydd Brexit yn parhau i gael effaith ddofn ar economi Cymru. Fodd bynnag, mae ymdrechion i fodelu'r effeithiau byrdymor yn creu canlyniadau ansicr. Mae modelu helaeth o'r effeithiau tymor canolig tebygol yn amcangyfrif y bydd hyn yn waeth mewn rhai sectorau. Y sectorau sydd fwyaf agored i effeithiau pontio o'r UE yw'r rhai sy'n dibynnu ar fewnforio ac allforio i'r UE, megis y sector amaethyddol a bwyd, a'r sectorau gweithgynhyrchu a dur.<br><br>Mae gwaith wedi parhau i gefnogi dinasyddion yr UE gan gynnwys oedolion sy'n agored i niwed i wneud cais i Gynllun Preswylio'r UE (EUSS). Yn ôl ffigurau a gafodd eu rhyddhau ym mis Mai 2022, mae 25,430 o geisiadau wedi'u gwneud i'r cynllun gan ddinasyddion o'r UE sy'n byw yng Nghaerdydd (hyd at 31 Mawrth 2022).<br><br>Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod Caerdydd yn gallu elwa o raglenni olynol i Ffrydiau Cyllid Ewropeaidd, megis Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| | **Mae'r sefyllfa ledled Caerdydd – yn ogystal ag ar draws Cymru – yn symud tuag at ymgorffori effeithiau Brexit mewn trefniadau 'busnes fel arfer' ledled y ddinas,** gan sicrhau ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd, yn unol ag adferiad ar ôl Covid. |
| Parhau i gynnal digwyddiadau mawr yn y ddinas, gan adeiladu ar lwyddiant Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r sector preifat. | Ym mis Gorffennaf 2021, cynhaliodd Castell Caerdydd **Yn Fyw ac yn Rhydd,** sef cyfres o nosweithiau lle trosglwyddwyd y Castell i leoliadau llawr gwlad y ddinas er mwyn cefnogi eu hadferiad yn sgil Covid-19.<br><br>Llwyddodd Caerdydd i gynnal digwyddiad **'Clash At the Castle'** y WWE ar gyfer mis Medi 2022 a fydd yn dod â chynulleidfa newydd i'r ddinas, a dyma fydd sioe stadiwm gyntaf y WWE yn y DU ers i 'SummerSlam 1992' gael ei chynnal yn Stadiwm Wembley yn Llundain.<br><br>Mae'r ddinas hefyd yn parhau i weithio ar sefydlu **Digwyddiad Cerddoriaeth Nodweddiadol** gyda digwyddiad lansio i'w gynnal ym mis Hydref 2022. |
| Ceisio dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 trwy gefnogi cyflawni Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog. | **Cyhoeddwyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog (2022-2027), yn ogystal a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032,** sydd ill dau'n rhan annatod o weledigaeth y ddinas o fod yn brifddinas Cymru wirioneddol ddwyieithog a bwrw'r targed o ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050.<br><br>Mae Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd yn gosod camau ar gyfer cyflawni'r uchelgais hon ar draws agweddau amrywiol o fywyd y ddinas, gan gynnwys twf addysg Cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr holl ysgolion fel bod pob person ifanc yn cael cyfle i glywed a siarad y Gymraeg. |

## 6. Mae Caerdydd yn Tyfu mewn Ffordd Gadarn

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Mabwysiadu **ymagwedd integredig o ran cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus** yng nghymunedau newydd y ddinas. | Mae'r BGC wedi comisiynu ei Fwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth i ddatblygu egwyddorion ar gyfer datblygu/defnyddio mannau mewn partneriaeth. Mae gwaith yn parhau ar hyn o bryd o ran uwchgynllunio cymunedau newydd ar y cyd, gan gynnwys asedau gwasanaethau cyhoeddus/arolygu tir.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys datblygu canllawiau ac arferion i **sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at ddinas carbon niwtral.** Bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) nesaf ar gyfer Caerdydd hefyd yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno yn unol â'r egwyddor hon.<br><br>Mae Strategaeth Eiddo Cyngor Caerdydd 2021-26 yn nodi gweithio mewn partneriaeth a lleihau carbon yn yr amgylchedd adeiledig fel amcanion allweddol. |
| Ceisio sicrhau bod **50% o'r holl deithiau yng Nghaerdydd gael eu gwneud trwy ddulliau teithio cynaliadwy** a hynny trwy gefnogi'r broses o ddatblygu a darparu Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd. | Mae Caerdydd yn parhau i fod â'r lefel fwyaf o draffig cerbydau modur fesul awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n cyfrannu at allyriadau carbon Caerdydd. Fodd bynnag, **mae'r defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gydag ychydig dros 51% o drigolion Caerdydd bellach yn teithio i'r gwaith trwy ddefnyddio cludiant cynaliadwy.**<br><br>**Lansiodd y BGC ei Siarter Teithio Iach i Staff ym mis Ebrill 2019,** gan nodi nifer o ymrwymiadau er mwyn helpu i annog gweithwyr i newid i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a chyflwyno mwy o gerbydau trydan i fflyd y gweithlu.<br><br>Mae pob partner wedi gwneud cynnydd yn erbyn y targedau 3 blynedd, yn enwedig o ran gweithio ystwyth. Er mwyn cefnogi teithio llesol, mae 15 cilomedr o lwybrau beicio newydd naill ai wedi'u cwblhau neu'n cael eu creu ar hyn o bryd ar draws y ddinas. Agorwyd llwybr 'dros dro' o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n cysylltu Treganna ac Adamsdown trwy Stryd y Castell a Heol Casnewydd ddiwedd Ionawr 2022. Mae llwybr 'dros dro' arall sy'n cysylltu Sblot a Rhodfa Lloyd George bron â'i gwblhau ac mae'r gwaith o adeiladu Beicffordd 1.2 sy'n cysylltu Heol Senghennydd yn Cathays ag Ysbyty Athrofaol Cymru yn mynd rhagddo'n dda. Yn ogystal, mae 122 o'r 127 o ysgolion Caerdydd naill ai wedi cynhyrchu neu yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol.<br><br>Er mwyn hyrwyddo a chefnogi teithio llesol ymhellach, mae Map Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl) yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd y Map yn edrych ymlaen dros y 15 mlynedd nesaf at rwydwaith o lwybrau cerdded a beicio a fydd yn helpu trigolion i deithio o amgylch y ddinas yn haws.<br><br>Yn ogystal â'r Siarter Teithio Iach Staff, **mae'r BGC wedi lansio Siarter Teithio'n Iach Byd Busnes** mewn partneriaeth â Chaerdydd Am Byth (FOR Cardiff). |
| Gweithredu **ymateb dinas gyfan i lygredd aer** trwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Strategaeth Aer Glân Caerdydd. | **Mae'r BGC hefyd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Aer Glân y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019,** gan dargedu gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol yng nghanol y ddinas a rhai o'r ardaloedd mwyaf llygredig ar draws Caerdydd. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| | Yn ystod 2021/22, parhaodd ffocws ar weithredu'r mesurau a nodir yn y Cynllun Aer Glân, er mwyn sicrhau y llwyddwyd i gydymffurfio â'r gwerth terfyn ansawdd aer cyfreithiol ar gyfer NO2. Roedd y mesurau a weithredwyd yn cynnwys cyflwyno 36 o Fysus Trydan, ôl-osod 49 o fysus i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau allyriadau diweddaraf a chyflwyno cynllun prydlesu tacsis ar gyfer Tacsis Trydan. Yn ogystal, rhoddwyd cynllun Stryd y Castell dros dro ar waith, fel y manylir yn y Cynllun Aer Glân. Mae'r trefniant priffyrdd hwn yn cynnal ffordd feicio 2 ffordd, wrth ganiatáu ailgyflwyno traffig cyffredinol ar ôl cau'r ffordd a wnaed mewn ymateb i'r pandemig. Cwblhawyd y trefniant hwn erbyn diwedd Hydref 2021.<br><br>Roedd gwaith monitro ar Stryd y Castell yn dangos y llwyddwyd i gydymffurfio â'r gwerth terfyn NO2 yn 2021, gyda chyfartaledd blynyddol o 26 µg/m3 yn cael ei gofnodi.<br><br>Mae gwaith monitro wedi parhau ar Stryd y Castell, er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei chynnal ers cyflwyno'r cynllun trafnidiaeth dros dro. Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru wrth i asesiadau pellach gael eu cynnal i ganfod cynllun parhaol addas ar Stryd y Castell, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth NO2 hirdymor ar ôl Covid. Roedd gwaith monitro ansawdd aer a wnaed ar draws gweddill y ddinas yn 2021 yn dangos cydymffurfiaeth lawn ag amcanion ansawdd aer NO2 – wedi'u mesur mewn 116 o safleoedd – a bydd adroddiad llawn am hyn yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2022 sydd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. |
| **Sicrhau bod y ddinas yn barod am achosion o dywydd eithafol** sy'n gysylltiedig â'r Newid yn yr Hinsawdd, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ac annog newidiadau i ymddygiad ymysg trigolion a busnesau'r ddinas a'r bobl sy'n ymweld â hi. | **Mae newid hinsawdd yn ffactor allweddol ym mhob agwedd ar holl ddyluniadau a gwaith adeiladu cynlluniau perygl llifogydd.** Mae'r gwaith o greu fersiwn wedi'i diweddaru o strategaeth a chynllun rheoli risg llifogydd ar y gweill ar hyn o bryd – un o'r ffactorau sbarduno allweddol trwy'r ddogfen fydd yr hinsawdd sy'n newid, yn ogystal ag ymgysylltu â chymunedau lleol ynghylch ymwybyddiaeth, atal a beth i'w wneud yn ystod digwyddiad tywydd eithafol.<br><br>Ar ôl deddfu Atodlen 3 Deddf Llifogydd a Rheoli Dŵr (2010), mae'n ofynnol i bob datblygiad dros 100m2 gael cymeradwyaeth y CCDC (Corff Cymeradwyo SDCau). Mae'r newid yn yr hinsawdd yn ffactor allweddol trwy bob un o'r 6 safon.<br><br>Yn ogystal, mae sgyrsiau ac ymgysylltu wedi'u dylunio a'u cynnal â thrigolion lleol a chyfleusterau addysgol ynghylch effaith y newid yn yr hinsawdd ar gymunedau a'r risgiau cysylltiedig, fel diogelwch dŵr. Mae cymorth wedi'i i unrhyw gymunedau sy'n dymuno sefydlu grwpiau risg llifogydd lleol i fynd i'r afael â'r hinsawdd sy'n fythol newid ar lefel leol.<br><br>Ar ben hynny, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau rheoli risg eraill, fel DCWW, CNC ac awdurdodau cyfagos, i ddatblygu datrysiadau traws-ffiniau posibl i gynyddu'r risg o lifogydd o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. |
| Ceisio **lleihau ôl-troed carbon gwasanaethau cyhoeddus y ddinas** trwy weithio i sicrhau bod yr holl adeiladau cyhoeddus yn rhai sy'n effeithlon o ran ynni a gwastraff. | **Mae'r BGC wedi sefydlu Bwrdd Argyfwng Hinsawdd sy'n dod â phartneriaid sector cyhoddues lleol a chwmnïau Prifysgolion a Chyfleustodau'r ddinas ynghyd i rannu arferion gorau a thrafod cynnydd ar y cyd yn erbyn uchelgeisiau carbon Sero-Net.** |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
| --- | --- |
| | Mae'r grŵp hwn wedi cwrdd yn rheolaidd dros y 2 flynedd ddiwethaf i ddatblygu darlun a rennir o gynnydd a rhannu arferion gorau. Nodwyd pedwar maes gwaith allweddol lle ystyrir y gallai gweithredu cydlynol ar y cyd sicrhau mwy o fuddion nag y gellid eu dwyn os ydym yn gweithio ar ein pennau ein hunain, sef:<br><br>• Datgarboneiddio fflyd a rhannu seilwaith gwefru Cerbydau Trydan<br><br>• Seilwaith gwyrdd, gan gynnwys gwell plannu coed a rheoli bioamrywiaeth ar draws ein hystadau.<br><br>• Polisi caffael i gael gwared ar elfennau carbon uchel yn ein gwariant<br><br>• Newid ymddygiad a cheisio ffyrdd cyson o ymgorffori meddylfryd ymatebol o ran yr hinsawdd ar draws ein sefydliadau a'n cwsmeriaid.<br><br>Sefydlwyd grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer pob un o'r themâu hyn a rhoddwyd tasg i bob un ddatblygu cylch gorchwyl a rhaglenni gwaith ar gyfer y blynyddoedd nesaf. |
| **Ystyried y posibilrwydd o waredu buddsoddiadau cyhoeddus cwmnïau tanwydd ffosil.** | **Mae Polisi Buddsoddi Newid yn yr Hinsawdd Pwyllgor Pensiynau Cyngor Caerdydd yn amlinellu nifer o gamau gweithredu allweddol mewn perthynas â gweithio tuag at leihau'r perygl i'r Gronfa Bensiwn o fod yn agored i risgiau amgylcheddol.**<br><br>Un o'r camau gweithredu allweddol fu hwyluso symud buddsoddiadau "goddefol" i Gronfeydd Buddsoddi gan olrhain mynegeion carbon isel. Mae'r Gronfa Bensiwn wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r cam gweithredu hwn, gyda dau fuddsoddiad sylweddol – ym mis Chwefror 2020 ac ym mis Gorffennaf 2021 – yn cael eu gwneud yng Nghronfa Traciwr Ecwiti Carbon Isel BlackRock. Roedd daliad y Gronfa Bensiwn yn y Gronfa Garbon Isel yn £616 miliwn ar 31 Mawrth 2022, sef 23 % o gyfanswm gwerth y Gronfa Bensiwn ar y dyddiad hwn. Nid yw'r Gronfa Carbon Isel yn gweithredu gwaharddiad llwyr ar fuddsoddiadau mewn cwmnïau tanwydd ffosil ond mae'n gweithredu gyda nifer o waharddiadau sy'n gysylltiedig â thanwydd ffosil, gan gynnwys, er enghraifft, cloddio am lo ac archwilio olew Arctig.<br><br>Mae cyfran sylweddol o fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael ei chadw yng nghynhyrchion Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a rennir. Mae rhannu adnoddau Buddsoddi trwy PPC wedi galluogi'r 8 Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yng Nghymru i benodi darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Er y bydd y gweithgaredd hwn yn ymdrin â'r ystod lawn o fentrau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl), bydd risgiau amgylcheddol, gan gynnwys y rhai a achosir gan gwmnïau Tanwydd Ffosil, yn cael lle amlwg yn y gweithgaredd ymgysylltu a wnaed. |

## 7. Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Mabwysiadu **ymagwedd gwasanaethau traws-gyhoeddus o ran rheoli eiddo ac asedau cyhoeddus.** | Yn dilyn Adolygiad Gwneud Asedau i Weithio (AGAW/MAWR) Llywodraeth Cymru ac Ystadau Cymru, mae Gweithgor Asedau Cenedlaethol Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cynnal adolygiad o asedau i nodi cyfleoedd ar gyfer darparu gwasanaeth partneriaeth newydd.<br><br>**Mae Bwrdd Partneriaeth Rheoli Asedau'r BGC wedi cael ei ailgyfansoddi o ganlyniad, gyda Chylch Gorchwyl newydd i'w sefydlu.** |
| Datblygu **gweithlu gwasanaeth cyhoeddus y ddinas a** sicrhau bod y sgiliau priodol ganddo i fodloni anghenion a gofynion newidiol. | Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu llawer o heriau gweithlu – staffio a sgiliau, ei gallu i ddenu darpar weithwyr fel dewis gyrfa, a chystadleuaeth o sectorau eraill. Yn fwy diweddar, mae materion recriwtio a chadw staff wedi cael eu cydnabod yn broblem, nid yn unig y sector cyhoeddus, ond ar draws yr economi. Ledled Caerdydd yn benodol, nodwyd prinder sgiliau - yn enwedig sgiliau digidol.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cynllunio'r gweithlu, **mae dull yn cael ei ddatblygu ar draws y sector cyhoeddus er mwyn denu talent yn y dyfodol,** gan gynnwys cynyddu cyfleoedd prentis a chyfleoedd dan hyfforddiant (gan gynnwys graddedigion) a chynyddu lleoliadau profiad gwaith, yn ogystal ag archwilio sut i gynyddu'r elw ar yr Ardoll Prentisiaethau. |
| **Datblygu dull cydlynol o ran ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwil.** | Mae aelodau'r BGC wedi parhau i gefnogi ei gilydd gyda chyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu.<br><br>**Yn 2021, bu'r BGC yn cefnogi trigolion i gymryd rhan yn y Cyfrifiad,** yr arolwg allweddol a fydd yn llywio cynllunio gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus dros y 10 mlynedd nesaf. Oherwydd y pandemig, cynhaliwyd 'Cyfrifiad Digidol'.<br><br>**Ar hyn o bryd mae 'Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion' statudol yn cael ei datblygu, a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Hydref 2022. Bydd y strategaeth yn edrych ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â chymunedau a bydd yn ystyried dysgu o bandemig Covid-19.** Rhoddir ffocws arbennig ar gynyddu cyfranogiad gan y grwpiau mwyaf difreintiedig, mwyaf digyswllt ac nas clywir yn aml yn y gymdeithas. |
| Ceisio darparu **gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector a gweithlu sy'n cynrychioli'r ddinas a'i chymunedau,** yn enwedig cymunedau BAME. | Ym mis Gorffennaf 2020, sefydlwyd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol gan Gyngor Caerdydd a ddaeth â phartneriaid sector cyhoeddus a chyflogwyr mawr ynghyd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y ddinas.<br><br>Daeth y Tasglu i ben ym mis Mawrth 2022 a chyhoeddodd ei adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion o ran cyflogaeth a gweithlu cynrychioladol – gan fod hyn wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth allweddol.<br><br>Yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, bydd gwaith yn cael ei wneud i roi argymhellion y Tasglu ar waith a pharhau i adeiladu ar fentrau cydraddoldeb, gan sicrhau bod Caerdydd yn ddinas lle gall pawb ffynnu, ni waeth beth y bo'u cefndir. |